British Waterways
Dyfrffyrdd Prydain

ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHYFRIFON 2008/09

Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2008/09 Dyfrffyrdd Prydain

Adroddiad Blynyddol a gyflwynwyd i Senedd y DU gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig ac i Senedd yr Alban gan Weinidogion yr Alban wrth arfer y pwerau a roddwyd gan adran 24 (3) a 27 (8) o Ddeddf Trafnidiaeth1962.

Corfforaeth gyhoeddus yw Dyfrffyrdd Prydain sy'n atebol i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) yng Nghymru a Lloegr, a Llywodraeth yr Alban yn yr Alban. Rydym yn rheoli rhwydwaith 2,200 milltir o hyd o gamlesi ac afonydd sy'n dyddio'n ôl 200 mlynedd.

Y Gweinidog dros Ddyfrffyrdd Mewndirol, Cymru a Lloegr
Huw Irranca-Davies AS

Y Gweinidog dros Drafnidiaeth, Seilwaith a Newid yn yr Hinsawdd, yr Alban
Stewart Stevenson MSP

Blaenoriaethau Strategol
Yng Nghymru a Lloegr rydym wedi ein noddi gan yr Adran Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, a'r Adran sy'n darparu arweiniad strategol ar reoli'r dyfrffyrdd. Mae'r cyfeiriad strategol presennol yn pennu'r blaenoriaethau canlynol:
1. Cynnal rhwydwaith y dyfrffyrdd mewn cyflwr boddhaol
2. Cyflawni nod hirdymor y Llywodraeth/Dyfrffyrdd Prydain o fod yn fwy hunangynhaliol
3. Sicrhau manteision cyhoeddus ychwanegol amrywiol

Yn yr Alban rydym wedi parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth yr Alban. Mae ystod gweithgareddau Dyfrffyrdd Prydain yr Alban yn gyson â'r pum amcan strategol a bennwyd gan Lywodraeth yr Alban ac yn gefnogol iddynt:
1. Yn gyfoethocach a thecach
2. Yn iachach
3. Yn ddiogelach a chryfach
4. Yn gallach
5. Yn wyrddach

Rydym hefyd wedi parhau i gydweithio'n agos â Llywodraeth Cynulliad Cymru a byddwn yn parhau i wneud hynny yn 2009/10.

DATGANIAD Y CADEIRYDD

Mae'r sefyllfa economaidd sydd ohoni wedi gwneud i bobl ailystyried rhai o werthoedd ein cymdeithas. Mae ein dyfrffyrdd a'r wlad o'u hamgylch yr un mor werthfawr heddiw ag erioed; yn wir maent yn cael eu gwerthfawrogi hyd yn oed yn fwy wrth i nifer cynyddol o bobl fyw, gweithio ac ymlacio ger y dyfrffyrdd.

Mae pobl yn gwerthfawrogi ein dyfrffyrdd gan eu bod yn rhoi cyfle iddynt weld, profi a chyffwrdd â rhywbeth oesol, llesol a naturiol, yn hytrach na rhywbeth dros dro sy'n newid yn ôl y ffasiwn ddiweddaraf. Mae'r dyfrffyrdd yn cynnig rhywbeth i'r teulu cyfan, yn cynnwys y gymuned leol gan rannu gyda nhw yn hytrach na chymryd oddi wrthynt ac maent yn hygyrch ac ar gael am ddim i bawb. Maent yn diogelu'n hamgylchedd i'r dyfodol mewn ffordd sy'n difyrru ac yn gwareiddio pawb sy'n ymwneud â nhw. Bydd canfod adnoddau ar gyfer yr ased gwych hwn yn fater fydd angen sylw cyson. Dyna pam rydym am i gymunedau lleol ac unigolion deimlo fod y camlesi a'r afonydd yn perthyn iddynt yn fwy nag erioed, a Dyfrffyrdd Prydain fydd yn eu goruchwylio a'u hwyluso.

Ar hyd y rhwydwaith cafwyd nifer fawr o lwyddiannau unigol, gyda rhai ohonynt yn cynnwys nifer cynyddol o wirfoddolwyr. Rydym yn gwerthfawrogi eu hymrwymiad i gynnal a chadw ac ymestyn y dyfrffyrdd, hyfforddi eraill mewn sgiliau crefft a chymdeithasol newydd, a rhoi cyfle i bobl llai breintiedig i gael profiad o harddwch, hanes a bywyd gwyllt y dyfrffyrdd a'r cefn gwlad o'u cwmpas. Roeddem yn falch hefyd o weld bod nifer y cychod trwyddedig ar y rhwydwaith wedi cynyddu eto i tua 33,000 - sef y ffigur uchaf erioed.

Cwblhawyd prosiectau mawr eleni gan gynnwys prosiect £23 miliwn Loc Three Mills, gwaith adnewyddu dyfrffyrdd cyfagos yn Nwyrain Llundain, Cyswllt Camlas Lerpwl heibio i Three Graces i ganol yr hen ddociau, a cham cyntaf Camlas Manceinion, Bury a Bolton. Mae'r gwaith o adfer Camlesi Droitwich yn datblygu'n dda.

Yn yr Alban rydym wedi dod i gytundeb partneriaeth gyda Chyngor Falkirk i ymestyn Camlas Forth a Clyde ar hyd Afon Carron fel rhan o brosiect HELIX. Mae'r dyfrffyrdd hyn yn drawiadol ac roedd y balchder lleol a'r gweithgarwch economaidd a grëwyd o ganlyniad i'r gwaith yn werth ei weld. Rwyf hefyd yn falch iawn bod Prosiect Camlesi'r Cotswolds yn parhau i ddatblygu, er gwaethaf y ffaith na fedrwn gyfrannu'n ariannol. Dymunwn bob llwyddiant i'r Bartneriaeth. Mae angen swm sylweddol o arian gan bartneriaid trydydd parti ar gyfer prosiectau adfer mawr a hoffwn ddiolch i lawer o bartneriaid arbennig, sy'n cyfrannu llawer mwy nag arian yn unig.

Ariennir llawer o'n gwaith drwy ein gweithgareddau masnachol, gan gynnwys cyd-fentrau eiddo. Mae'n adeg anodd i'r farchnad eiddo yn gyffredinol ar hyn o bryd ac fe wnaeth ein hincwm a'n hasedau ddioddef y llynedd. Serch hynny, rydym wedi rhagori unwaith eto ar yr IPD (Investment Property Databank) - sef y meincnod mwyaf cydnabyddedig ar gyfer perfformiad yn y farchnad eiddo, ac mae ein perfformiad hirdymor wedi bod yn dda.

Roeddem yn falch iawn hefyd fod y Trysorlys wedi cydnabod ein hanes llwyddiannus o reoli ein gwaddol eiddo yng Nghymru a Lloegr yng Nghyllideb mis Ebrill, yn dilyn adolygiad annibynnol manwl gan Gerry Grimstone fel rhan o Raglen Effeithiolrwydd Gweithredol y Trysorlys. Rydym wedi parhau i dderbyn incwm masnachol da gan ffynonellau amrywiol er gwaethaf y sefyllfa economaidd sydd ohoni gyda'r incwm diweddaraf yn dod o fentrau ynni adnewyddadwy.

Ein blaenoriaeth yw defnyddio'r incwm masnachol hwn, ynghyd â'r incwm a roddwyd i ni gan y llywodraethau, i gynnal a chadw seilwaith ein dyfrffyrdd. Yn ystod y flwyddyn gwariwyd dros £100 miliwn ar gynnal ein dyfrffyrdd gan gynnwys gwaith atgyweirio mawr ar Gamlas Mynwy ac Aberhonddu, a gyflawnwyd mewn pryd gyda chyllideb o £7.5 miliwn.

Rydym hefyd wedi cymryd camau pwyllog tuag at leihau costau er mwyn ein helpu i gynnal a chadw'n ddyfrffyrdd yn y dyfodol, o ystyried y cyfyngau anochel ar wariant cyhoeddus. Gan fod cyflogau yn rhan fawr o'r gost, bu'n rhaid diswyddo rhai pobl fel rhan o'r broses o leihau costau. Nid ar chwarae bach

rydym yn gwneud hyn a hoffwn ddiolch i bawb sy'n parhau i wneud gwaith arbennig o dan amgylchiadau anodd ac i'r rhai sydd wedi ein gadael am eu cyfraniad at ein dyfrffyrdd.

Tra ein bod yn canolbwyntio ar gynnal a chadw'r rhwydwaith a sicrhau'r buddion cyhoeddus gorau o safbwynt iechyd, addysg, adfywio, cynhwysiant cymdeithasol, diogelu'r amgylchedd a lleihau llifogydd, rhaid i ni a'n rhanddeiliaid amrywiol hefyd barhau i ystyried y cynlluniau hirdymor a'r opsiynau ariannu gofynnol, gan gynnwys parhau i arallgyfeirio cyllid.

Bellach mae Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain o'r farn y dylid adolygu trefn lywodraethu hirdymor y dyfrffyrdd. Rydym am i gymunedau lleol, unigolion a gwirfoddolwyr deimlo fod y dyfrffyrdd yn perthyn iddynt yn fwy nag erioed a'u bod yn gyfrifol amdanynt. Yn ddiweddar cyhoeddwyd ein dogfen, *2020: A Vision for the Future of our Canals and Rivers,* sy'n pennu ein strategaeth hirdymor ar gyfer dyfrffyrdd cynaliadwy yn seiliedig ar y ffaith fod Dyfrffyrdd Prydain yn symud fesul tipyn o'r sector cyhoeddus i'r sector elusennol. Mae'r drafodaeth gyhoeddus ar y strategaeth arfaethedig eisoes wedi dechrau, ac mae ymateb cadarnhaol ein rhaddeiliaid yn arwydd calonogol iawn. Byddwn yn parhau i ymgynghori'n fanwl ac rydym yn awyddus i dderbyn safbwyntiau ac awgrymiadau gan yr holl bartïon â buddiant.

Rydym yn croesawu ymrwymiad Defra i adolygu dogfen bolisi Llywodraeth y DU, *Dyfrffyrdd ar gyfer Yfory*, a'r diweddariad a ddisgwylir yn fuan gan Lywodraeth yr Alban o'r ddogfen bolisi, *Scotland's Canals: An Asset For the Future*.

Hoffwn ddiolch i Huw Irranca-Davies AS, Gweinidog dros Ddyfrffyrdd Cymru a Lloegr, ac i Stewart Stevenson MSP, ein Gweinidog dros gamlesi yn yr Alban. Mae'r ddau wedi gwneud ymdrech fawr i ymweld â'r dyfrffyrdd a chwrdd â'n cwsmeriaid ac maent hwy a'u staff wedi bod yn gefnogol iawn.

Diolch i'r nifer fawr o bartneriaid mewn llywodraeth leol, y Loterïau, ac asiantaethau eraill fel Natural England, Scottish Natural Heritage ac Asiantaeth yr Amgylchedd ac, yn enwedig, y mudiad gwirfoddoli am ei waith cynyddol bwysig. Dim ond trwy weithio mewn partneriaeth y gellir gweithio'n effeithiol i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i'r dyfrffyrdd. Yn olaf, diolch i'n timoedd Dyfrffyrdd Prydain ffyddlon am eu hymrwymiad i'r dasg sylweddol dan sylw. Mae yna lawer i'w wneud ac mae gennym y brwdfrydedd sydd ei angen i gyrraedd y nod.

Tony Hales
Cadeirydd

TROSOLWG GRŴP
DATBLYGU'R WELEDIGAETH

Bum mlynedd yn ôl ein huchelgais oedd creu, erbyn 2012, rwydwaith dyfrffyrdd ehangach, bywiog hunangynhaliol ar y cyfan a ddefnyddir gan ddwywaith gymaint o bobl â'r rhai a oedd yn ei ddefnyddio yn 2002. Caiff ei ystyried yn un o asedau cenedlaethol pwysicaf a mwyaf gwerthfawr y wlad. Bydd ymwelwyr wrth eu bodd gyda'r profiad ac o ganlyniad daw llawer i gyfranogi ynddo.

Mae'r weledigaeth hon wedi bod o gymorth i ni ac rydym wedi cymryd camau mawr tuag at ei chyflawni. Mae'r llwyddiannau allweddol canlynol yn brawf o hyn:

- Mae'r rhwydwaith wedi ehangu ers 2003. Agorwyd cyfnod un o Gamlas Manceinion, Bolton a Bury ym mis Medi 2008 yna Cyswllt Camlas Lerpwl ym mis Mawrth 2009. Agorwyd y cysylltiad lociau â'r dyfrffyrdd Olympaidd ym mis Mehefin 2009 a disgwylir i Gamlesi Droitwich agor yn 2010.
- Rydym wedi gwneud cynnydd da o ran dod yn fwy hunangynhaliol gyda'n hincwm a enillir yn tyfu o 57% o'r trosiant yn 2002/03 i 67% o'r trosiant yn 2008/09. Tyfodd incwm a enillir fesul gweithiwr cyflogedig 48% rhwng 2002/03 a 2008/09.
- Er nad yw nifer yr ymwelwyr wedi dyblu, mae wedi codi yn ystod y blynyddoedd diwethaf gyda nifer cyfartalog yr ymwelwyr mewn pythefnos nodweddiadol yn cyrraedd 3.4 miliwn yn 2008, sef 6% yn fwy nag yn 2007 a 17% yn fwy nag yn 2006.
- Mae mwy a mwy o bobl yn cefnogi'r dyfrffyrdd. Yn 2008, roedd 90% o oedolion Prydain yn cytuno bod camlesi yn rhan bwysig o etifeddiaeth y wlad ac roedd 59% yn cytuno'n gryf, sef 8% yn fwy o gymharu â 2007.
- Mae nifer y bobl sy'n cytuno'n gryf fod camlesi'n llefydd da i ymweld â nhw wedi codi o 37% yn 2007 i 42% yn 2008.

£½ biliwn o fanteision cyhoeddus

Y llynedd, darparodd ein rhwydwaith o gamlesi ac afonydd dros £½ biliwn o fanteision cyhoeddus i'r gymdeithas. Roedd y rhain yn cynnwys y manteision iechyd a lles amrywiol a geir o ymarfer corff a gweithgareddau hamdden ar y dyfrffyrdd a'r llwybrau tynnu; manteision i dwristiaeth o ymwelwyr o Brydain a thramor sy'n cael gwyliau ar gychod camlas; manteision bioamrywiaeth gwerthfawr; manteision adfywio a hyd yn oed mesurau mwy pwysig i atal llifogydd mewn llawer o'n trefi a'n dinasoedd. Yn gyffredinol, gellid dweud bod y dyfrffyrdd yn un o asedau mwyaf gwerthfawr Prydain - eleni cafwyd chwe chymaint o werth am bob £1 o grant y llywodraeth a fuddsoddwyd ynddynt.

Yn ystod y 12 mis diwethaf mae pobl wedi parhau i gymryd diddordeb yn y cyfraniad y gall ein dyfrffyrdd ei wneud at gymunedau ar hyd a lled y rhwydwaith - gan gynnwys y drafodaeth ddefnyddiol a gynhaliwyd yn ein Cyfarfod Blynyddol ar Ddyfrffyrdd ar gyfer yr 21ain Ganrif. Roedd y drafodaeth yn cynnwys sylwadau ar sut y gallem gydweithio'n agosach ag awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod cymunedau'n cael y manteision gorau o ddyfrffyrdd sydd wedi'u cynnal a'u cadw'n dda a sut y gallem fanteisio ar y cyfraniad cudd y gall gwirfoddoli ei wneud tuag at gynnal y rhwydwaith.

Partneriaid yn buddsoddi dros £36 miliwn yn y dyfrffyrdd

Yn ogystal â'u hamser, eu harweiniad a'u cymorth, buddsoddodd ein partneriaid, o asiantaethau datblygu rhanbarthol ac awdurdodau lleol i loterïau ac elusennau lleol, £36.1 miliwn yn ein dyfrffyrdd yn 2008/09. Gwariwyd hyn ar amrywiaeth eang o welliannau i'r dyfrffyrdd, rhai mawr a bach, ac mae'n brawf o'r amcanion rydym yn eu rhannu'n aml o safbwynt darparu manteision cyhoeddus. Rydym yn ddiolchgar i bob un ohonynt.

Mwy o gychod mwy o bobl

Mae'r dyfrffyrdd yn gartref i fwy o gychod nawr nag ar unrhyw adeg ers iddynt ddod yn eiddo cyhoeddus. Bellach, mae'r rhain yn perthyn i'r diwydiant hamdden a thwristiaeth llwyddiannus yn bennaf, sy'n cynhyrchu £980 miliwn i'r economi ac yn cefnogi 22,000 o swyddi.

Mae llwyddiant ein hymgyrchoedd marchnata ynghyd â gwelliannau parhaus i'r dyfrffyrdd a mynediad iddynt a galw cynyddol am 'bethau lleol' wedi arwain at gynnydd yn nifer yr ymwelwyr sy'n cymryd rhan yn y gweithgareddau amrywiol iawn sydd ar gael ar hyd ein dyfrffyrdd a'n llwybrau tynnu. Mae cerdded, pysgota, beicio, loncian ac, wrth gwrs, mynd mewn cwch, yn rhai o'r gweithgareddau mwyaf poblogaidd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynyddodd nifer yr ymweliadau 7% o 245.3 miliwn yn 2007 i 262.6 miliwn yn 2008. Mae'r ffigurau'n arbennig o bwysig o ystyried bod cyfanswm yr ymweliadau i ddyfrffyrdd mewnol yn gostwng ar y cyfan.

Diogelu ein treftadaeth

Yn ôl ein gwaith ymchwil mae 90% o bobl o'r farn fod dyfrffyrdd yn rhan bwysig o dreftadaeth y wlad. Y llynedd cawsom lawer o gyfle i ddangos ein hymrwymiad i ddiogelu treftadaeth y dyfrffyrdd. Mae'r Warws Mordwyo Rhestredig Gradd II* ar hyd Dyfrffordd Calder a Hebble yn Wakefield wedi'i adfer a'i adnewyddu i safon arbennig. Enillodd wobr Ymddiriedolaeth Ddinesig y Ddinas am y gwaith adfer a chafodd ei gymeradwyo gan BURA (Cymdeithas Adfywio Trefol Prydain) yn y Seremoni Wobrwyo Dadeni Dyfrffyrdd flynyddol. Rydym hefyd wedi lleihau nifer ein hadeiladau sydd ar gofrestrau awdurdodau lleol o 'adeiladau mewn perygl'. Rydym yn parhau i gydweithio'n agos gydag English Heritage a arweiniodd gyfres o seminarau rhanbarthol pwysig ar Gytundebau Rheoli Treftadaeth (partneriaethau rhwng perchnogion treftadaeth ac awdurdodau treftadaeth) y mae Dyfrffyrdd Prydain wedi gwneud cyfraniad sylweddol atynt. Ar ôl cynnal ymweliad UNESCO â Thraphont Ddŵr Pontcysyllte ym mis Medi 2008, roeddem wrth ein bodd pan ddyfarnwyd Statws Treftadaeth y Byd i'r ddyfrffordd syfrdanol hon a'r Heneb Gofrestredig ym mis Mehefin 2009.

Diogelu ein hamgylchedd

Mae rheoli gwastraff yn her fawr o safbwynt trin y gwastraff sy'n cael ei ollwng ar ein tir a'r gwastraff a gynhyrchir gan ein gweithgareddau. Cyhoeddodd AINA (Cymdeithas Awdurdodau Mewndirol Mordwyaeth) ganllawiau arfer gorau eleni a ddatblygwyd gennym ni i raddau helaeth er mwyn helpu'r diwydiant mordwyaeth a draenio deunydd carthu. Y llynedd llwyddwyd i arbed £1 miliwn drwy ailgylchu deunydd carthu ac osgoi 10,000 o deithiau lori ar ffyrdd Prydain.

Yn gynharach eleni rhoesom sylw i'r ffaith fod pobl yn gadael trolis siopa yn ein dyfrffyrdd drwy lansio llinell frys i'r cyhoedd allu rhoi gwybod am drolis siopa maent yn eu gweld mewn camlesi ac afonydd. Ceisiwyd dod i gytundeb adennill costau gyda phrif fanwerthwyr y DU a rhoddodd y cyfryngau sylw mawr i'r manwerthwyr gan ofyn iddynt pam nad ydynt yn gwneud mwy i fynd i'r afael â'r mater hwn. Yn ddiweddarach yn 2009 caiff Gwobr Troli Aur ei chyflwyno i'r cwmni manwerthu sy'n ymateb i'r mater yn y modd mwyaf ystyriol o'r amgylchedd, tra bydd Gwobr 'Off Your Trolley' yn cael ei dyfarnu i'r cwmni manwerthu sy'n ymateb i'r mater yn y modd lleiaf ystyriol o'r amgylchedd.

Un o'r nodweddion allweddol sy'n denu ymwelwyr i'r dyfrffyrdd yw eu bywyd gwyllt ac mae Arolwg Bywyd Gwyllt Cenedlaethol Dyfrffyrdd Prydain yn rhoi cyfle i'r cyhoedd nodi eu diddordeb a chymryd rhan. Nid Dyfrffyrdd Prydain yn unig sy'n gwneud gwelliannau bioamrywiaeth; rydym yn gweithio gyda phartneriaid fel Asiantaeth yr Amgylchedd a BTCV (Ymddiriedolaeth Gwirfoddolwyr Cadwraeth Prydain) i gael gwared ar ddail-ceiniog arnofiol a chyda Derbyshire Wildlife i dynnu planhigion annymunol ar hyd Camlas Cromford er mwyn gwella cynefin llygod y dŵr.

Fel rhan o'r gwaith o weddnewid Basn Auchinstarry ar Gamlas Forth a Clyde yn yr Alban, rydym wedi cyflwyno arferion amgylcheddol gynaliadwy a bu Ymddiriedolaeth Dyfrffyrdd yr Alban yn gweithio gyda'r gymuned leol a chyda noddwyr eang i greu gardd synhwyrau a llwybr natur o'r enw 'Scents & Sensitivities'.

Y dyfrffyrdd yn helpu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd

Mae newid yn yr hinsawdd ac addasu o ganlyniad i effaith newid yn yr hinsawdd yn uchel ar frig yr agenda gyhoeddus wrth i'r byd dderbyn bod llifogydd a lefelau dŵr uwch yn sgil stormydd yn ganlyniad anochel i gynhesu byd-eang. Mae ein dyfrffyrdd eisoes yn darparu manteision gwerth £67 miliwn i'r gymdeithas o safbwynt draenio tir, ac mae'r hyn y gall ein dyfrffyrdd eu cynnig o safbwynt amddiffyn rhag llifogydd yn dod yn fwyfwy arwyddocaol - caiff lefelau camlesi eu rheoli fel eu bod yn dargyfeirio dŵr llifogydd i ffwrdd o'r ardaloedd sy'n cael eu heffeithio waethaf ganddynt. Bydd y cynlluniau a gyhoeddwyd gennym yn ystod y flwyddyn i gynhyrchu ynni adnewyddadwy ledled y dyfrffyrdd yn

gwneud cyfraniad mawr at dargedau ynni adnewyddadwy'r Llywodraeth. Gyda'i gilydd, bydd y cyfle sydd ar gael i godi tyrbinau gwynt ar lannau'r dŵr a chynnal cynlluniau trydan dŵr mewn nifer o goredau afonydd yn cynhyrchu 429 megawat o ynni - sef digon i 85,000 o gartrefi. Wrth i'r cynlluniau gael eu datblygu yn ystod y blynyddoedd nesaf, bydd y rhwydwaith yn cynhyrchu dros ddeg gwaith yr ynni mae'n ei ddefnyddio.

Yn yr un modd, bu i'r cwmni fferyllol enwog, GlaxoSmithKline fanteisio ar y cyfle i ddefnyddio dŵr camlas fel dull amgen mwy cynaliadwy o aerdymheru yn eu pencadlys ar lannau camlas yng Ngorllewin Llundain drwy gyflwyno cynllun ar gyfer arbed 920 tunnell o allyriadau carbon deuocsid y flwyddyn. Gallai hyd at 1,000 o fusnesau eraill ar lannau'r dyfrffyrdd ledled y DU ddilyn esiampl y cwmni, a allai olygu lleihau oddeutu miliwn o dunellau o allyriadau carbon deuocsid - sy'n gyfwerth â thynnu 400,000 o geir teulu oddi ar y ffyrdd.

Byddwn yn parhau i ddatblygu ein Cynllun Gweithredu Datblygu Cynaliadwy sydd wedi'i seilio ar bedwar prif bwnc: deunydd craidd, ynni, gwastraff ac ecoleg.

Dysgu'r genhedlaeth nesaf am y dyfrffyrdd

Mae ein gwefan addysg bwrpasol, WOW (*Wild Over Waterways*) wedi cael ei hail-lansio o ganlyniad i newidiadau i'r cwricwlwm cenedlaethol a'r pwyslais cynyddol ar ddysgu y tu allan i'r ystafell ddosbarth.

Yn 2008 cawsom 110,000 o ymweliadau â'r wefan, sef 34% yn fwy nag yn 2007. Rydym wedi gwella cynnwys addysgol rhai o'n cyrchfannau allweddol, megis Lifft Cychod Anderton a Thwnnel Standedge. Mae'r adnoddau newydd, y gweithdai a'r ymweliadau wedi'u marchnata i'r ysgolion lleol ac anfonwyd deunydd hysbysebu cyffredinol i bob ysgol gynradd yn y DU.

Sicrhau ein bod yn gwybod eich barn

Yn ystod 2008/09, cyflwynwyd ein Safonau Gwasanaethau Cwsmeriaid newydd. Am y tro cyntaf rydym wedi monitro Safonau Pobl, Diogelwch a Pherfformio yn barhaus drwy drefn arolygu mewnol a threfn 'cwsmer cudd' allanol. Bydd yr 81 o safonau sy'n perthyn bob categori a phob sgôr unigol yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan yn www.britishwaterways.co.uk/customer-service-standards.

Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd cyfanswm o 417 o gwynion ar lefel cyntaf o broses gwyno Dyfrffyrdd Prydain, sef 20% yn llai na'r llynedd (521 yn 2007/08) a bron i 50% yn llai na dwy flynedd yn ôl (762 yn 2006/07). O'r cwynion lefel cyntaf, aeth 63 ymlaen i'r ail lefel i'w hystyried gan gyfarwyddwr. Mae hyn yn cynrychioli 15% o'r holl gwynion a dderbyniwyd (13% yn 2007/08 ac 11% yn 2006/07).

Mae Ombwdsmon Dyfrffyrdd annibynnol ar gael i drin cwynion ar drydydd cam, sef y cam olaf. Yn ystod 2008/09 derbyniodd yr Ombwdsmon 72 o ymholiadau; nid oedd 12% yn berthnasol i Ddyfrffyrdd Prydain a gwnaed 65% ohonynt cyn yr amser priodol, h.y. nid oedd y gŵyn wedi bod drwy broses gwyno lawn Dyfrffyrdd Prydain. Derbyniwyd 16 o gwynion (29 yn 2007/08) i'w hystyried. Rhoddodd Ombwdsmon y Dyfrffyrdd sylw i 16 o achosion eleni (39 yn 07/08). Ni chadarnhawyd deg o'r achosion, penderfynwyd peidio â bwrw ymlaen gydag achos arall, ni ddaeth yr Ombwdsmon i benderfyniad ar achos arall a chafodd y pedwar achos arall eu datrys i safon foddhaol gyda'r achwynydd ar ôl i Ddyfrffyrdd Prydain ymateb yn dilyn ymyrraeth yr Ombwdsmon. Ceir gwybodaeth am y cynllun Ombwdsmon a'i bwyllgor annibynnol yn www.waterways-ombudsman.org.

Goresgyn y dirwasgiad

Crynodeb o ganlyniadau'r flwyddyn £m

Grŵp Dyfrffyrdd Prydain

2008/09	2007/08	2006/07	Ailddatganwyd	2005/06	2004/05
Cyfanswm y refeniw					
(Colled) / elw gweithredu					
Llog net sy'n daladwy					
Cyfran elw a cholled o gyd-fentrau					
Elw ar werthu eiddo a buddsoddiadau					
(Colled) / elw ar ailbrisio eiddo a fuddsoddwyd					
(Diffyg) / gwarged cyn treth					
Cronfeydd wrth gefn y Grŵp					

Mae ffigurau cymharol ar gyfer 2007/08 wedi'u hailddatgan o ganlyniad i drosglwyddo i Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Cafodd y dirywiad difrifol yn y farchnad eiddo a'r dirwasgiad cyffredinol effaith anwydol ar y canlyniadau ariannol eleni. Serch hynny mae incwm masnachol wedi cynyddu 11%, o ganlyniad i bremiwm hawddfraint eiddo untro yn bennaf. Llwyddodd ffynonellau eraill o incwm i berfformio'n dda er gwaethaf y dirwasgiad a chafwyd tueddiadau sylfaenol cadarnhaol ym mhob maes incwm.

Er gwaethaf y pwysau cynyddol ar ein harian rydym wedi cynnal gwariant ar gynnal a chadw'r dyfrffyrdd a gwasanaethau cwsmeriaid ar lefel debyg, sef £70.9 miliwn (2008: £68.8 miliwn) gyda gwariant ar waith mawr yn cynyddu i £28.6 miliwn (2008: £21.5 miliwn). Mae'r gwariant ar brosiectau a ariennir gan drydydd partïon yn seiliedig ar gyllid sydd ar gael. Gwelwyd gostyngiad o 26% mewn gweithgarwch i £36.1 miliwn wrth i waith adeiladu prosiectau mawr gael ei gwblhau neu nesu at y pwynt hwnnw.

Mae gwerth portffolio eiddo anweithredol Dyfrffyrdd Prydain yn adlewyrchu effaith y dirwasgiad hefyd gyda gostyngiad o 15% y llynedd (£66 miliwn). Serch hynny, roedd y gostyngiad hwn yn ffafriol o gymharu ag elw cyfalaf mynegai IPD y DU ar gyfer 2008, sef -26% ar gyfer eiddo masnachol a -18% ar gyfer eiddo preswyl. Mae portffolio buddsoddi Dyfrffyrdd Prydain yn cynnwys buddsoddiadau rhent tir diogel iawn nad ydynt wedi'u heffeithio i raddau mor wael â dosbarthiadau eraill o asedau masnachol.

Yn ystod y flwyddyn cafodd caniatâd cynllunio amlinellol ei gymeradwyo ar gyfer ailddatblygu Wood Wharf, Docklands, ac mae'r gostyngiadau gwerth wedi cael effaith gyffredinol gadarnhaol ar y portffolio datblygu eiddo. Mae'r portffolio preswyl wedi'i ailbrisio i fod 13% yn uwch yn dilyn ymarfer prisio trylwyr a manwl. Er bod y gwerth cyffredinol wedi gostwng yn sylweddol, dylid ei ystyried ochr yn ochr â'r cynnydd parhaol yng ngwerth eiddo Dyfrffyrdd Prydain yn ystod y pum mlynedd diwethaf. Roedd cronfeydd wrth gefn y grŵp 20% yn llai, sef £378.7 miliwn, sy'n adlewyrchu'r gostyngiad yng ngwerth marchnad ein buddsoddiadau eiddo a'n datblygiadau eiddo cyd-fenter, a chynnydd yn niffygion y gronfa bensiwn.

Cyfanswm balans arian parod y grŵp ar 31 Mawrth 2009 oedd £61.3 miliwn (2008: £37.6 miliwn). Mae'r cynnydd yn dangos bod y rheolwyr wedi canolbwyntio'n glir ar gynnal hylifedd yn ystod cyfnod o risgiau cynyddol i weithgareddau datblygu eiddo ein cyd-fentrau.

Cynyddodd cyfanswm incwm y grŵp, gan gynnwys arian trydydd parti, 2% i £223.3 miliwn. Cynyddodd incwm masnachol y grŵp 11% i £112.9 miliwn, yn bennaf o ganlyniad i bremiymau untro ar gyfer gweithgareddau datblygu eiddo trydydd parti ar lannau'r dyfrffyrdd. Ac eithrio'r eitem hon, cafwyd gostyngiad bychan o 2% mewn incwm eiddo oherwydd yr incwm a wariwyd ar gael gwared ar eiddo. Mae incwm cyfleustodau wedi parhau ar lefel foddhaol er gwaethaf y cyfnod ariannol anodd gan godi 6% i £21.4m. Tra bod llawer mwy o gwsmeriaid gwerthu dŵr wedi dod â'u contractau i ben o gymharu â'r blynyddoedd diwethaf, mae busnes newydd yn cynyddu, yn enwedig ymhlith cwsmeriaid cyfleustodau mwy o faint.

Mae incwm o drwyddedau cwch wedi codi 13% sy'n adlewyrchu cynnydd mewn enillion fesul trwydded hirdymor o 6% a'r cynnydd o 4% yn nifer y trwyddedau hirdymor a roddwyd. Cyflawnwyd y cynnydd hwn yn rhannol wrth i lai o bobl lwyddo i osgoi talu a bod twf wedi bod yn y farchnad gychod. Ym mis Rhagfyr 2008 cyhoeddwyd ein bod yn cyflwyno Ffi Taliad Hwyr er mwyn annog pobl i dalu mewn pryd a chyflwynwyd hyn yn llwyddiannus o 1 Ebrill 2009. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu ein hadran arbenigol yn canolbwyntio ar ddatblygu marinas newydd ar gyfer buddsoddwyr trydydd parti a bu'n hwyluso'r broses o greu 1,600 angorfa newydd.

Cafwyd 26% yn llai o gyfraniadau at waith a ariennir gan drydydd partïon, sef £36.1 miliwn. Parhaodd y gweithgarwch ar waith adfer mwy ar lefel tebyg i'r flwyddyn flaenorol; mae'r prif brosiectau adeiladu yn cynnwys ymestyn camlas Gyswllt Lerpwl a gwaith adfer Camlesi Droitwich. Cafwyd llai o gyfraniadau tuag at brosiectau eraill a ariennir gan drydydd partïon yn 2008/09 gan fod prosiectau'n dod i ben neu'n agosáu at orffen

Cymorth grant

Fe wnaethom fanteisio ar gynnig Defra i dderbyn taliad grant ychwanegol o £5 miliwn eleni gan ddeall ei bod hi'n debygol na fyddwn yn derbyn y grant y flwyddyn nesaf. O ganlyniad, derbyniwyd grant cymorth o £62.7 miliwn gan Defra (2008: £56.6 miliwn) a oedd £6.1 miliwn yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Ni ddisgwylir i gymorth grant y dyfodol barhau ar y lefel hon ac mae'n debygol y bydd y cymorth yn lleihau yn ystod y blynyddoedd nesaf. Cynyddodd grant Llywodraeth yr Alban £0.3 miliwn i £11.6 miliwn.

Y DYFODOL

Ein prif flaenoriaeth yw sicrhau bod ein dyfrffyrdd yn goroesi'r dirwasgiad a'u bod yn gallu parhau i ddarparu £500 miliwn o fanteision cyhoeddus i Brydain bob blwyddyn. Rydym wedi llunio cynllun synhwyrol ar gyfer y tair blynedd nesaf. Mewn cyfnod mor newidiol a heriol bydd angen i bawb ymdrechu i'r eithaf i gyrraedd y nod.

Mae'r rhaglen o fesurau effeithiolrwydd ac arbed costau a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2009 yn rhan annatod o'r cynllun hwn. Ein nod yw arbed £10 miliwn y flwyddyn ar gostau cyffredinol. Caiff yr arbedion hyn eu hailfuddsoddi mewn cynyddu gwaith cynnal a chadw'r dyfrffyrdd, yn enwedig gwella cyflwr hirdymor seilwaith mawr megis argloddiau, pontydd, traphontydd dŵr a lociau.

Tra ein bod yn rhoi sylw manwl i'r tair blynedd nesaf, rhaid i ni hefyd ystyried y dyfodol hirdymor. Dyna pam ein bod ni wedi cychwyn trafodaeth gyhoeddus ar strategaeth ar gyfer y dyfrffyrdd hyd at 2020 a thu hwnt i hynny. Rydym o'r farn y bydd symudiad graddol Dyfrffyrdd Prydain o'r sector cyhoeddus i'r trydydd sector neu'r sector gwirfoddol yn dod â llu o fanteision ac yn arwain at ddyfodol mwy cadarn sydd wedi'i seilio ar gyfraniad rhanddeiliaid.

Mae'r ymateb cadarnhaol rydym wedi'i dderbyn hyd yn hyn i'n syniadau yn galonogol. Gobeithiwn y bydd y drafodaeth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at adolygiad Llywodraeth y DU o'i pholisi *Dyfrffyrdd ar gyfer Yfory* y disgwylir iddo ddod i ben yn gynnar yn 2010 ac y bydd Llywodraeth yr Alban yn ystyried yr adborth rydym yn ei dderbyn yn ei diweddariad a ddisgwylir yn fuan, sef *Scotland's Canals: An Asset for the Future*.

I gael rhagor o wybodaeth am ein syniadau strategol ac i roi'ch barn, ewch i:
www.britishwaterways.co.uk/twentytwenty

ADOLYGIAD CYMRU A LLOEGR

Ein prif swyddogaeth yw diogelu ein rhwydwaith dyfrffyrdd 200 mlwydd oed. Yn ganolog i hyn mae yna 2,650 o strwythurau rhestredig, 47 o henebion cofrestredig a sawl enghraifft o nodweddion treftadaeth gweithredol unigryw megis twneli, lociau a phontydd.

Y nodweddion hyn sy'n gwneud y dyfrffyrdd mor apelgar ac unigryw ond gall eu cynnal a'u cadw fod yn gostus gan na ellir, ac na ddylid, eu hatgyweirio neu'u disodli gan nodweddion modern rhad. Er gwaethaf cyfnodau hir o ddiffyg buddsoddi yn yr 20fed ganrif, mae cyflwr cyffredinol y rhwydwaith wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf wrth i waith atgyweirio cysylltiedig â diogelwch gael ei gynnal yn 2004.

Serch hynny, nid yw'r dyfrffyrdd yn cael eu hariannu i raddau digonol lle y gellir parhau i gynnal a chadw'r rhwydwaith ar lefel sefydlog ac o ansawdd derbyniol. Trwy waith a gomisiynwyd gan gyfrifyddion KPMG yn 2008 cafwyd cadarnhad y byddai angen £30 miliwn yn fwy bob blwyddyn er mwyn cynnal a chadw'r dyfrffyrdd fel eu bod mewn 'cyflwr sefydlog' sy'n golygu bod y gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio yn ddigon i osgoi dirywiad hirdymor yng nghyflwr seilwaith y dyfrffyrdd.

£100 miliwn wedi'i wario ar gynnal a chadw'r dyfrffyrdd

Yn 2008/09, gwariwyd cyfanswm o £101.6 miliwn (2008: £95.1 miliwn) yng Nghymru a Lloegr ar waith cynnal a chadw ac atgyweirio, allan o gyfanswm costau gweithredu o £175.2 miliwn heb gynnwys gwaith a ariennir gan drydydd partïon. Tra bod strategaethau newydd yn cael eu llunio i fynd i'r afael â'r mater o ariannu hirdymor y cyfeiriwyd ato eisoes, rydym wedi cytuno gyda'r llywodraeth y byddwn yn cynnal y dyfrffyrdd yn eu cyflwr presennol fel y maent ar hyn o bryd yn ystod y cyfnod hwn o adolygu gwariant.

Cynhyrchu £10 biliwn trwy waith adfywio

Mae ein dyfrffyrdd yn mynd trwy gefn gwlad arbennig o hardd yn ogystal ag ambell i ardal ddifreintiedig, a oedd arfer bod yn ddiwydiannol, yn ein trefi a'n dinasoedd. Gan fod hanner y rhwydwaith yn ardaloedd blaenoriaeth y llywodraeth ar gyfer buddsoddi, y manteision cyhoeddus mwyaf gweledol yn aml yw'r gwaith adfywio y mae'r dyfrffyrdd bywiog yn rhoi hwb iddo - naill ai gan fod y ddyfrffordd newydd ei hadnewyddu neu ei bod yn rhan ganolog o fenter adfywio'r ardal sy'n seiliedig ar ddyfrffordd a oedd yno eisoes yno. Er bod llai o waith adfywio wedi bod yn digwydd ar lannau'r dyfrffyrdd yn ddiweddar oherwydd y dirwasgiad, mae'r dyfrffyrdd yn parhau i fod yn gatalydd pwysig ar gyfer newid cadarnhaol mewn cymunedau ac o safbwynt cynhwysiant cymdeithasol. Yn y pendraw, bydd daliadau tir Dyfrffyrdd Prydain a'i gyd-fentrau, naill ai rhai annibynnol neu fel rhan o bartneriaeth ehangach, yn cynhyrchu gwaith adfywio gwerth oddeutu £10 biliwn ar lannau ein dyfrffyrdd yng Nghymru a Lloegr. Wrth i'r farchnad wella, bydd y cynlluniau adfywio hyn yn rhoi hwb i gyflogaeth, yn cynorthwyo economi leol ac yn creu 13,000 o gartrefi newydd gyda 2,500 ohonynt yn dai fforddiadwy.

Yn ystod y flwyddyn, cyrhaeddwyd nifer o gerrig milltir cyffrous ynglŷn â'n prosiectau adfywio partneriaeth.

Cyswllt Camlas Lerpwl

Mae darn newydd sbon o'r gamlas wedi ail-sefydlu'r cyswllt hanesyddol rhwng Dociau De Lerpwl, na ddefnyddir llawr ar hyn o bryd, a Chamlas Leeds a Lerpwl. Mae'r bartneriaeth £22 miliwn rhwng Dyfrffyrdd Prydain, Asiantaeth Datblygu Rhanbarthol y Gogledd Orllewin, Rhaglen Amcan Un Glannau Mersi, yr Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau a Peel Holdings wedi agor glannau dŵr y ddinas i weddill y rhwydwaith camlesi - gan ddenu cychod ac adleisio amser a fu pan ddaeth y dyfrffyrdd â llwyddiant i Lerpwl. Bydd y Cyswllt Camlas newydd, sy'n llifo am 1½ milltir trwy Safle Treftadaeth y Byd o flaen y Three Graces enwog - sef adeiladau Liver, Cunard a Phorthladd Lerpwl, yn denu 200,000 o ymwelwyr ychwanegol i ddociau Lerpwl bob blwyddyn gan ychwanegu £1.9 miliwn at wariant twristiaeth.

Gemau Olympaidd 2012

Bydd y gwaith £23 miliwn ar Loc Three Mills a'r strwythur rheoli dŵr ar Sianel Prescott yn sicrhau y bydd Afonydd Bow Back yn rhan annatod o Barc Olympaidd 2012. Bydd y loc yn adfer y dyfrffyrdd ôl-ddiwydiannol ac mae wedi creu porth gwyrdd fel y gall cychod llwytho 350-tunnell fynd i mewn i'r Parc

Olympaidd er mwyn osgoi miloedd o deithiau lori ar y ffyrdd lleol yn ystod camau adeiladau eraill y Parc Olympaidd a chamau adeiladu'r dyfodol. Mae'r prosiect yn rhan o strategaeth ehangach i ddenu cymaint â phosibl o fywyd gwyllt, cychod a phobl i'r afonydd, gan greu hanes dyfrffyrdd ffyniannus. Mae partneriaid a chyd-arianwyr Dyfrffyrdd Prydain yn cynnwys Defra, Awdurdod Gweithredu'r Gemau Olympaidd, Transport for London, Corfforaeth Datblygu Porth Tafwys Llundain, Asiantaeth Datblygu Llundain a'r Adran Drafnidiaeth.

Camlesi Droitwich
Mae'r gwaith o adfer camlesi cychod a chyffordd Droitwich (rhai o'r camlesi cyntaf ac olaf y chwyldro diwydiannol) yn mynd rhagddo'n dda - a disgwylir i Gamlesi Droitwich ail-agor yng ngwanwyn 2010. Mae'r prosiect £11.5 miliwn yn cynnwys 2,000 o ddyddiau gwirfoddoli (hyd yma) a bydd yn creu cylch mordeithio 21 milltir a fydd yn cynhyrchu £2.75 miliwn y flwyddyn i'r economi leol.

Camlas Manceinion, Bolton a Bury
Ym mis Medi agorwyd Cam 1 o brosiect adfer Camlas 15 milltir Manceinion, Bolton a Bury sy'n ailgysylltu'r gamlas ag Afon Irwell. Dyfrffyrdd Prydain sy'n arwain y prosiect £6 miliwn a chaiff ei gefnogi gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop trwy Manchester Enterprises, Cyngor Dinas Salford, Asiantaeth Datblygu Gogledd Orllewin Lloegr, a Valley and Vale Properties.

Creu llwybrau gwyrdd

Mae 60% o ymwelwyr yn dweud eu bod yn gwneud mwy o ymarfer corff bellach gan eu bod yn gallu cael mynediad i'r dyfrffyrdd ac, yn achos gwelliannau i lwybrau tynnu'n unig, bydd llwybr tynnu sy'n cael ei wella yn aml yn denu dwywaith gymaint o bobl, sy'n defnyddio'r dyfrffyrdd i wneud gweithgareddau hamdden neu fel llwybr gwyrdd trwy ein trefi a'n dinasoedd.

Y llynedd gwelsom nifer o enghreifftiau o welliannau i'n llwybrau tynnu; ar Afon Stort yn Harlow er enghraifft, lle buom yn gweithio mewn partneriaeth â'r cyngor lleol i greu llwybr cerfluniau - a oedd yn rhan o gynllun ehangach i wella llwybr tynnu a chynefin bywyd gwyllt sy'n ymestyn bron i bedair milltir a hanner o ganol y dref. Bellach mae mwy o bobl yn mwynhau'r ardal leol a chododd nifer yr ymwelwyr o 43,000 yn 2007 i dros 61,000 yn 2008.

Yn Ne Swydd Gaerlŷr, bu i ni arwain partneriaeth i gwblhau prosiect gwerth £2.9 miliwn a ariannwyd yn Lociau Foxton ar Gamlas Grand Union. Enillodd y prosiect pum mlynedd hwn Wobr Dadeni Dyfrffyrdd 2009 BURA am Lwyddiant Eithriadol ac mae'r ardal wedi newid i fod yn gyrchfan dwristiaeth ranbarthol allweddol sy'n denu tua 330,000 o ymwelwyr y flwyddyn. Roedd y gwaith yn cynnwys gwella bron i ddwy filltir o lwybrau, gosod mannau gwylio newydd a gwaith dadansoddi ac adfer yn seiliedig ar y plân ar oledd hanesyddol.

Gwirfoddoli ar y dyfrffyrdd

Yn ystod y flwyddyn cyflogwyd rheolwr gwirfoddoli cenedlaethol, a oedd yn gam pwysig tuag at gael gwell dealltwriaeth o waith gwirfoddol ledled y dyfrffyrdd ar hyn o bryd, a'r posibiliadau o ddenu rhagor o wirfoddolwyr. Hefyd lansiwyd dyfarniadau sy'n gwneud rhywfaint i gydnabod cyfraniad arwyddocaol gwirfoddolwyr i'n camlesi a'n hafonydd. Mae'r dyfarniadau'n talu teyrnged i waith llawer o bobl sydd, yn sgil eu hymroddiad, wedi cael effaith sylweddol ar eu dyfrffordd leol. Mae hyn oll wedi ein helpu i ddyblu nifer y diwrnodau gwirfoddoli ar ein dyfrffyrdd i 16,000, sy'n werth dros £1 miliwn.

Nawr rydym yn edrych ar sut y gellir denu mwy o bobl o'r gymuned leol i wirfoddoli ar ein dyfrffyrdd, gan ddod â budd i'r ddwy ochr - fel y gwelwyd ar Gamlas Caerhirfryn lle gwnaeth yr Ymddiriedolaeth Camlesi waith atgyweirio treftadaeth pwysig yn ddiweddar i strwythurau ar Lwybr Ceffyl Twnnel Hincaster, sy'n heneb gofrestredig.

Yn ogystal ag edrych ar gyfleoedd a phartneriaethau newydd, rydym wedi datblygu gwaith yn seiliedig ar fentrau sydd eisoes wedi gweld llwyddiant megis ein hwythnos flynyddol o dacluso llwybrau tynnu, ym mis Mawrth, lle daeth dros 1,700 o wirfoddolwyr i helpu i glirio 149 tunnell o sbwriel ar hyd 216 milltir o'r dyfrffyrdd.

Cyrhaeddwyd carreg filltir bwysig eleni, mewn partneriaeth ag Ymddiriedolaeth y Dyfrffyrdd, sef sicrhau rhaglen ariannu £300,000 gyda v - yr elusen annibynnol sy'n ceisio ysbrydoli cenhedlaeth newydd o wirfoddolwr (16-25 oed) yn Lloegr. Bydd y cymorth yn ariannu rhaglen beilot gyffrous ledled dyfrffyrdd yng Ngogledd Orllewin Lloegr i helpu i oresgyn y pethau sy'n rhwystro pobl rhag mynd ati i gymryd rhan mewn prosiectau gwirfoddol cymunedol.

Dangosyddion perfformiad allweddol (DPA) ar gyfer Cymru a Lloegr

Rydym wedi cytuno ar rai DPAau gyda Defra, sy'n cael eu hegluro a'u nodi isod. Mae'r DPAau hyn yn deillio o gynllun busnes a baratowyd gan Ddyfrffyrdd Prydain. Seilir y mesurau ariannol ar wybodaeth cyfrifyddu rheoli nad yw wedi'i chynnwys yn yr adroddiad hwn.

Y mesur ariannol allweddol yw'r incwm masnachol net a gynhyrchwyd gan Ddyfrffyrdd Prydain yr ydym yn ei ddefnyddio i ariannu gwaith sy'n dod â manteision i'r cyhoedd, fel gwaith cynnal a chadw a gwaith mawr, gwaith adfer ac adnewyddu'r dyfrffyrdd. Gelwir y targed hwn yn Berfformiad Masnachol Net; y targed arfaethedig oedd £29.4 miliwn ar gyfer 2008/09 o gymharu â'r £26.3 miliwn a dderbyniwyd mewn gwirionedd (cyn y colledion ariannol penodol yn gysylltiedig â'r cyd-fentrau).

Roedd y mesur effeithiolrwydd y cytunwyd arno yn DPA a gynrychiolwyd gan gost net gwasanaethau canolog, gweinyddiaeth ac uwch-reolaeth Dyfrffyrdd Prydain. Y targed oedd 3% o arbedion gwirioneddol a chafwyd 3.26% o arbedion gwirioneddol.
Ein targed DPA ar gyfer cyflwr y prif asedau oedd i asedau dosbarthiadol D&E beidio â bod yn fwy na chanran agregedig o 21.5% o gyfanswm y prif asedau. Canran wirioneddol yr asedau D&E ar 31 Mawrth 2009 oedd 20.3%.

Mae Dyfrffyrdd Prydain wedi diffinio Safonau Diogelwch Gofynnol ar gyfer y dyfrffyrdd. Y targed DPA ar gyfer y mesur hwn oedd cydymffurfio'n llwyr erbyn 31 Mawrth 2009. Mewn gwirionedd, cafwyd cydymffurfiaeth o 97%. Roedd yr achosion o beidio â chydymffurfio i'w priodoli i ffactorau amrywiol a oedd yn gysylltiedig â gofynion caniatâd arbennig yn bennaf. Cyflwynwyd trefniadau lleihau risg dros dro yn y cyfamser. Disgwylir i ni gydymffurfio'n llawn â'r holl safonau yn ystod 2009/10.

Bwriadwyd datblygu system sgorio i adlewyrchu cyflwr/swyddogaethau cyffredinol ein dyfrffyrdd o un flwyddyn i'r llall. Y bwriad oedd sefydlu'r system hon erbyn mis Mawrth 2009 er mwyn nodi sgôr meincnod erbyn y dyddiad hwnnw. Rydym wrthi'n sefydlu'r mesur hwn ond nid ydym wedi gorffen llunio'r system sgorio derfynol hyd yma. Caiff y sgôr meincnod fel yr oedd ar 31 Mawrth 2009 ei bennu yn ystod 2009.

Rydym yn mesur asesiad y cyhoedd o werth ein dyfrffyrdd ac yn adrodd hwn fel DPA. Caiff y mesur hwn ei asesu drwy ofyn i 1,000 o oedolion ym Mhrydain i ba raddau y maent yn cytuno neu'n anghytuno â'r datganiad canlynol, 'Mae camlesi'n rhan bwysig o dreftadaeth y wlad'. Y sgôr targed yw cael 90% i ddweud eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf â'r datganiad. Yn 2009 llwyddwyd i gyrraedd y targed o 90%. Rydym hefyd yn cynnal arolwg o ddefnyddwyr y dyfrffyrdd mewn perthynas â'u 'tueddiad i argymell' eu gweithgaredd penodol i bobl eraill. Pennir y DPA yn ôl y canran a fyddai 'yn argymell yn bendant' a dyma oedd y canrannau ar gyfer 2008/09:

Targed	**Canran 2008/09**
Cychwyr	
Defnyddwyr llwybrau tynnu	
Cyrchfannau	
Cychwyr gwyliau	

Nodir niferoedd yr ymweliadau â'r dyfrffyrdd bob pythefnos a chaiff y manylion eu cyfartalu er mwyn canfod y sgôr blynyddol. Y targed DPA ar gyfer 2008/09 oedd 3.3 miliwn o ymweliadau mewn pythefnos arferol a chafwyd 3.4 miliwn o ymweliadau yn ôl yr arolwg.

ADOLYGIAD CYMRU

Datblygu ein gweledigaeth ar gyfer dyfrffyrdd Cymru

Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf gwelwyd llawer o gynnydd o safbwynt ein meysydd allweddol o ddatblygu'r dyfrffyrdd, partneriaethau â'r llywodraeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Er mai San Steffan sy'n ariannu dyfrffyrdd Cymru ar hyn o bryd, yr ardal leol sy'n gweld y manteision. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwerthfawrogi potensial economaidd a chymdeithasol ein dyfrffyrdd ac mae ein tîm yn gwneud gwaith allweddol i gryfhau cysylltiadau gyda sefydliadau megis cymdeithasau camlesi a grwpiau cymunedol. Mae'r partneriaethau hyn yn ein helpu i wneud gwelliannau effeithiol a chydlynol i'n cynnyrch craidd - rhwydwaith dyfrffyrdd Cymru.

Mae agenda 'Cymru'n Un' Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sbardun allweddol i'n gwaith o ddatblygu ein dyfrffyrdd fel prif gynhyrchwyr economaidd a rhwydweithiau cymdeithasol cynhwysol. Oherwydd ei bwyslais ar fanteision iechyd, hamdden ac economaidd, bu'n rhaid datblygu partneriaethau effeithiol. Mae John Bridgeman, sy'n aelod o'r bwrdd, wedi ymgymryd â rôl benodol i gydgysylltu a datblygu'r weledigaeth hon. Mae'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ddyfrffyrdd yn fforwm poblogaidd sy'n cadw ein nodau a'n hamcanion yn uchel ar yr agenda wleidyddol gyda chyfres o gyflwyniadau amserol. Mae Grŵp Gweithredu Strategol wedi'i sefydlu fel y grŵp a fydd yn llywio datblygiadau economaidd a chymdeithasol yn y De-ddwyrain.

Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn ail-agor

Mae Dyfrffyrdd Prydain wedi cadw ei addewid i atgyweirio Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn dilyn achos o orlifo nad oedd modd ei ragweld yn 2007. Ar ôl gwario £1 miliwn ar waith atgyweirio yn 2007/08, a £7.5 miliwn yn 2008/09 rydym yn falch o gyhoeddi bod y gamlas wedi'i hail-agor mewn pryd ac o fewn y gyllideb ar 29 Mawrth 2009. Tra yr oeddem yn canolbwyntio'n amlwg ar gael Camlas Mynwy ac Aberhonddu yn gweithredu'n llawn unwaith eto, buom hefyd yn gweithio ar brosiectau mawr eraill. Ym mis Medi 2008, symudodd y cais i roi Statws Treftadaeth y Byd i Draphont Ddŵr Pontcysyllte ymlaen i'r cyfnod terfynol, sef asesiad tri diwrnod gan aseswyr UNESCO ar y safle 11 milltir hyd camlas Camlas Llangollen. Ar ddiwedd Mehefin 2009 roeddem wrth ein bodd pan gyhoeddodd UNESCO fod ein cais wedi bod yn llwyddiannus.

Arddangos camlesi Cymru

Mae dyfrffyrdd Cymru yn parhau i gyfrannu'n gynyddol at lwyddiant economaidd a chymdeithasol Prydain. Mae hyrwyddo'r amwynderau hamdden hyn er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr yn rhan hollbwysig o'n cylch gwaith yng Nghymru. Trwy sicrhau agenda wedi'i strwythuro'n dda yn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru gellir sicrhau bod rhanddeiliaid ar bob lefel yn gallu rhannu ein gweledigaeth i Gymru, drwy ddeunydd ysgrifenedig hygyrch a chyflwyniadau llafar ar bynciau penodol sy'n ymwneud â'r dyfrffyrdd. Cafwyd canlyniadau cadarnhaol trwy gadw proffil cyhoeddus uchel gydol prosiect Camlas Mynwy ac Aberhonddu. Cydweithiodd y Prif Weinidog, Rhodri Morgan AC, a'r Gweinidog dros y Dyfrffyrdd, Huw Irranca-Davies AS, i gyflwyno neges gadarnhaol am ddyfodol ein dyfrffyrdd i gynulleidfa niferus yng Nglanfa Goetre.

ADOLYGIAD YR ALBAN

Ers datganoli, mae Dyfrffyrdd Prydain yr Alban wedi cael ei noddi a'i ariannu gan Lywodraeth yr Alban Oherwydd hyn, bu modd i ni ddatblygu dull pwrpasol sy'n rhoi sylw i nodweddion a chyfleoedd ein camlesi ac i amcanion strategol Llywodraeth yr Alban: Yn Gyfoethocach a Thecach, yn Iachach; yn Ddiogelach a Chryfach; yn Gallach ac yn Wyrddach.

Yn dilyn canlyniad cadarnhaol yn Adolygiad Gwario diwethaf yr Alban, caiff ymrwymiad cryf Llywodraeth yr Alban ei adlewyrchu yn y cynnydd arfaethedig i'n grant sylfaenol, o £11.3 miliwn yn 2007/08 i £11.6 miliwn yn 2008/09, £11.8 miliwn yn 2009/10 a £12 miliwn yn 2010/11. Rydym wedi addo buddsoddi'r un faint o arian er mwyn cyfateb y cynnydd i'r grant sylfaenol trwy ffrydiau refeniw gwell.

Yn gyfoethocach a thecach

Yn ystod y flwyddyn, roeddem yn falch o groesawu canfyddiadau adroddiad gan ymgynghorwyr economaidd annibynnol a oedd yn rhoi sylw i gyfraniad mawr y camlesi at economi'r Alban gan greu £282 miliwn o fuddsoddi preifat a chynnal bron i 5,000 o swyddi.

Yn ôl yr amcanestyniadau, mae'n bosibl y bydd ein gwaith o adfer rhwydwaith Camlesi Iseldir yr Alban, a ddechreuodd gyda phrosiect £78 miliwn Cyswllt y Mileniwm i gysylltu camlesi Forth a Clyde ac Union, yn cynhyrchu £1.5 biliwn o fuddsoddiad a thros 12,500 o swyddi erbyn 2015 os yw'r buddsoddi mewn camlesi'r Alban yn parhau ar y lefel bresennol.

Rydym hefyd wedi ymrwymo i annog y defnydd ehangaf posibl o'n camlesi. Mae ymgyrchoedd marchnata diweddar yn arbennig wedi herio barn bresennol y cyhoedd sy'n nodi 'nad yw pobl nad ydynt yn defnyddio'r camlesi yn teimlo unrhyw gysylltiad â nhw, gan ddweud eu bod yn berthnasol i bobl â chychod a physgotwyr yn unig'. Llwyddodd ein hymgyrch cyntaf, a gynhaliwyd yng Nghaeredin eleni, i sicrhau cynnydd o 71% yn ymwybyddiaeth y cyhoedd a chynyddu defnydd 38%.

Roedd ein holl weithgareddau hyrwyddo o gymorth i ysgogi 24.5 miliwn o ymweliadau â rhwydwaith camlesi'r Alban eleni, sy'n 2.68% yn fwy na'r 23.9 miliwn a gafwyd y llynedd. Gydol y flwyddyn, llwyddodd Dyfrffyrdd Prydain yr Alban i ymgysylltu â 93,498 o bobl trwy raglen digwyddiadau brysur (o gymharu â 40,245 y flwyddyn flaenorol). Roedd y digwyddiadau'n amrywio o Ŵyl Camlas Kirkintilloch a Gŵyl Afon Glasgow i nifer o ddigwyddiadau cymunedol lleol llai o faint gan gynnwys trefnu teithiau cerdded, beicio, canŵio a rhasys hwyl.

Gweithio mewn partneriaeth i gyflawni mwy

Ni fedrwn gyflawni'n gweledigaeth ar gyfer yr Alban ar ein pennau ein hunain ac yn ystod y flwyddyn aethom ati i feithrin cysylltiadau gwaith agos ag amrywiaeth eang o bartneriaid y sector cyhoeddus a'r sector preifat gan ddarparu prosiectau cyffrous amrywiol:

HELIX: Parhaodd ein gwaith gyda Chyngor Falkirk ac Ymddiriedolaeth Coedwig Canolbarth yr Alban ar y prosiect mawr hwn i adfywio ardal enfawr rhwng Falkirk a Grangemouth i'w throi'n eco-barc defnydd cymysg a fydd yn hyrwyddo teithio gwyrddach ac iachach. Pan ddaw'r prosiect i ben, bydd HELIX (a gafodd grant o £25 miliwn gan Greu Cof Byw y Gronfa Loteri Fawr) yn cyfrannu at ddyhead Llywodraeth yr Alban i'w gwneud hi'n haws cyrraedd Camlas Forth a Clyde o Afon Carron. Gwneir hyn drwy greu cyswllt camlas rhwng Grangemouth ar afon Forth a Chamlas Forth a Clyde.

Gorllewin Swydd Dunbarton: Yn ogystal â'r cynllun arloesol i leihau'r risg o lifogydd, mae Camlas arfaethedig Lomond ar hyd Dyffryn Leven, sydd ar y cam dichonoldeb ar hyn o bryd, yn rhan o ddyheadau cyffrous iawn i greu cyfleoedd datblygu ledled Gorllewin Swydd Dunbarton, o Bowling (porth gorllewinol Camlas Forth a Clyde) i Balloch a Llyn Lomond a Pharc Cenedlaethol Trossachs.

Lociau Speirs a Lociau Maryhill: Gan weithio gyda'n partneriaid, Cyngor Dinas Glasgow ac ISIS, cydnabyddir bod y gwaith o adfer coridor camlas Glasgow yn allweddol i weddnewid gogledd y ddinas. Cafodd ein huwchgynllun ar gyfer Lociau Speirs ei gydnabod gan BURA pan ddyfarnwyd y wobr glodwiw Strategaeth ac Uwchgynllunio i ni, a rhoddwyd statws 'enghraifft dda' i'r ddau brosiect gan fenter newydd Llywodraeth yr Alban, Menter Cymunedau Cynaliadwy yr Alban.

Cei Caeredin: Mae'r cyd-fenter datblygu arobryn hwn gyda Miller Developments wedi creu lleoliad 24,000 metr sgwâr ar gyfer swyddfeydd, cartrefi a gweithgareddau hamdden, dros 1,000 o swyddi lleol ac amcangyfrifir y bydd yn cyfrannu £86.6 miliwn at economi Caeredin. Mae hefyd wedi sbarduno'r

gwaith o ymestyn yr Ardal Gyfnewid i'r Gorllewin ar hyd Fountainbridge, gan ddenu sawl tenant proffil uchel o'r sector gwasanaethau ariannol.

Basn Muirtown, Inverness: Cafodd llawer o waith pwysig ei wneud ar y datblygiad hirdymor hwn ym mhwynt cyswllt mwyaf gogleddol Camlas Caledonian.

Ardrishaig, ar Gamlas Crinan: Mewn partneriaeth â chymuned Ardrishaig, Cyngor Argyll a Bute a phartneriaid eraill, dechreuwyd datblygu uwchgynllun i weddnewid glan y dŵr i fod yn gymuned fywiog a chynaliadwy.

Mae gwaith Grŵp Dyfrffyrdd Prydain yr Alban yn allweddol i'n dull partneriaeth. Mae'r grŵp yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn ac yn cynrychioli ein buddiannau corfforaethol a masnachol yn amgylchedd gweinyddol datganoledig yr Alban. Rydym hefyd wedi ymrwymo i Grŵp Datblygu Camlesi'r Alban, casgliad o sefydliadau sy'n rhannu diddordeb mewn cynnal ein camlesi bywiog. Llywodraeth yr Alban sy'n cadeirio'r grŵp.

Yn iachach, yn ddiogelach a chyfoethocach

Creu Perchenogaeth Gymunedol

Mae Ymddiriedolaeth Dyfrffyrdd yr Alban yn parhau i annog cymunedau a'r sector gwirfoddoli i ymgysylltu â'n rhwydwaith mewn partneriaeth â Dyfrffyrdd Prydain yr Alban a sefydliadau eraill. Llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i gyrraedd ei darged o godi £1 miliwn eleni yn ogystal â 880 o ddiwrnodau gwirfoddoli sy'n werth dros £44,000 drwy ddigwyddiadau i wella llwybrau tynnu.

Trefnodd yr Ymddiriedolaeth hefyd ddigwyddiad blynyddol cyntaf Bigman ger Lociau Maryhill er mwyn dathlu Maryhill, y gamlas a'r bobl yn ogystal â phont arfaethedig Bigman a fydd yn cysylltu'r tair cymuned sydd wedi'u gwahanu gan y gamlas ar hyn o bryd. Cyfrannodd 2,500 o ymwelwyr at y rhaglen weithgareddau gyffrous hon.

Yn ogystal â hyn, cydnabyddwn waith cymdeithasau gwirfoddol y camlesi sy'n helpu ein cymunedau i ymgysylltu â'u camlesi lleol drwy drefnu teithiau cychod.

Teithiau cychod yn yr Alban

Mae marchnad ganŵs Camlas Caledonian yn ffynnu. Mae'n cyfrannu £750,000 at economi Ucheldir yr Alban bob blwyddyn ac yn tyfu 25% y flwyddyn ar ben y ffigur wreiddiol o 2,500 o bobl a oedd ymddiddori yn y maes.

Cyfanswm y cychod â thrwydded yn yr Alban yn 2008/09 oedd 3,354, o gymharu â 3,567 yn 2007/08, sef gostyngiad o 5.97%. Mae hyn yn adlewyrchu penderfyniad nad oedd modd ei osgoi i gau loc môr ar Gamlas Crinan er mwyn cynnal gwaith atgyweirio mawr yn ystod cyfnod prysuraf y tymor.

Er gwaethaf y gostyngiad bach hwn, cawsom sgorau llwyddiannus iawn yn ein harolwg blynyddol o foddhad perchnogion. Dywedodd 76% ohonynt y byddant yn debygol o argymell y dyfrffyrdd. Yn yr un modd, dywedodd 74% o bobl a gafodd wyliau mewn cwch y byddant yn ei argymell, o gymharu â 70% yn 2007/08.

Cydnabuwyd ein hymdrechion i hyrwyddo'r Alban fel cyrchfan wyliau gyda'r gorau yn y byd pan gafodd Camlas Caledonian ei ddyfarnu yn 'Profiad Gwyliau Cyffredinol Gorau' yn Arolwg Twristiaeth Le Boats o gyrchfannau ledled Ewrop.

Yn gallach

Mae Olwyn Falkirk, sef y lifft cychod cyntaf i droi a'r unig un yn y byd, bellach yn un o brif atyniadau ymwelwyr y wlad gan ddenu 5,000,829 o ymweliadau a 130,944 o deithwyr cwch, yn ôl y ffigurau a gyhoeddwyd gan ALVA (Cymdeithas y Prif Atyniadau i Ymwelwyr) ym mis Chwefror 2009. Mae ffigur ALVA ychydig yn is (-2.5%) na'r flwyddyn flaenorol ond mae'n galonogol gwybod mai dyma'r gostyngiad lleiaf ymhlith deg atyniad gorau'r Alban ac mai dim ond un o'r deg gorau gafodd canran uwch (1%).

Yn ystod y flwyddyn, fel rhan o'n gwaith i wella apêl fasnachol ein gweithrediadau, aethpwyd ati i ddechrau archwilio'r potensial o gael y sector preifat i gyfrannu at reoli Olwyn Falkirk o ddydd i ddydd.

Yn wyrddach

Creu cyrchfannau

Rydym wedi ymrwymo i ddiogelu a datblygu treftadaeth adeiledig ein camlesi, sy'n Henebion Cofrestredig, a'r amgylchedd naturiol o amgylch ein camlesi er lles genedlaethau'r dyfodol. Mae'r prosiectau a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys gweddnewid Basn Auchinstarry ger Kilsyth, lle mabwysiadwyd arferion amgylcheddol cynaliadwy a thechnoleg ecolegol. Hefyd, datblygwyd eco-dafarn gyntaf yr Alban, The Boathouse, trwy Bartneriaeth Tafarnau Glan Dŵr Dyfrffyrdd Prydain.

Roedd ein gwelliannau eang i brofiad y cwsmer yn cynnwys: rhagor o gyfleusterau i gychwyr (mwy o bontynau, llwyfannau glanio a llithrfeydd); atgyweirio argloddiau; gwella systemau carthu a llwybrau tynnu mewn partneriaeth â chynghorau lleol; gwella amwynderau; arwyddion a dehongli; a rheoli llystyfiant. Mae'r rhain oll wedi dod â mwy o fanteision i gymunedau ac ymwelwyr sy'n defnyddio camlesi'r Alban.

AELODAU'R BWRDD

Tony Hales CBE, Cadeirydd

Mae Tony yn Gadeirydd ar Workspace Group plc. Bu'n Brif Weithredwr Allied Domecq ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol Banc HSBC ccc a Dŵr Cymru ccc a Chadeirydd NAAFI Cyf. 60 oed. **(D, F, G)**

Richard Bowker CBE, Is-gadeirydd

Richard yw Prif Weithredwr Grŵp National Express ccc, sef busnes trafnidiaeth rhyngwladol o bwys. Mae'n gyn-Gadeirydd a Phrif Weithredwr yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, mae hefyd yn Aelod Bwrdd o'r Countryside Alliance, Ymddiriedolwr Ymddiriedolaeth Rheilffordd Settle Caerliwelydd a Dirprwy Lywydd y Gymdeithas Rheilffordd Treftadaeth. Mae Richard hefyd yn mwynhau mynd mewn cwch ac mae wedi teithio'n helaeth o amgylch y rhwydwaith yn ei gwch ei hun. 42 oed. **(B, D)**

John Bridgemen CBE TD

Mae John yn gyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol Masnachu Teg, Aelod o'r Comisiwn Monopolïau a Chydsoddiadau ac yn Brif Swyddog Gweithredol British Alcan Aluminium ccc. Ef yw Cadeirydd Pwyllgor Rheoleiddio Awdurdod Rasio Ceffylau Prydain, Cadeirydd Pwyllgorau Archwilio a Safonau Cyngor Sir ac Awdurdod yr Heddlu Swydd Warwick, Dyfarnydd Cwynion i Gymdeithas Teledu Ar Alw ac ymgynghorydd annibynnol mewn Strategaeth Gorfforaethol, Polisi Cystadleuaeth a Materion Defnyddwyr. 63 oed.**(A, B, F)**

John Bywater

Ymddeolodd John fel Cyfarwyddwr Bwrdd Hammerson ccc, cwmni eiddo Mynegai'r Can Cwmni yn 2007 a bellach ef yw Rheolwr Gyfarwyddwr Caddick Developments Cyf yn Swydd Efrog. Mae'n Gyfarwyddwr anweithredol Workspace Group ccc ac yn gyfarwyddwr anweithredol Cymdeithas Adeiladu West Bromwich. Mae John hefyd yn Ymddiredolwr Opera North yn Leeds. 61 oed **(C, G)**

Maggie Carver

Mae Maggie yn gyn-ariannwr ac yn Gyfarwyddwr Anweithredol i nifer o gwmnïau, yn bennaf yn sector y cyfryngau, gan gynnwys Channel Five Television Group Cyf. Ar hyn o bryd mae'n Gyfarwyddwr Independent Television (ITN) ac yn Rheolwr Gyfarwyddwr Milton Keynes Mobility Cyf, busnes sy'n gwerthu cynnyrch i bobl oedrannus ac anabl, sy'n golygu bod ganddi wybodaeth am faterion mynediad. 44 oed. **(C, D)**

Rodney Green

Ymunodd Rodney â'r Bwrdd ar 1 Mai 2009. Bu'n Brif Weithredwr Cyngor Dinas Caerlŷr. Mae hefyd wedi gweithio fel Prif Weithredwr Cynorthwyol i Gyngor Sir Gorllewin Morgannwg, ac fel Swyddog Addysg Sir Cynorthwyol i Gyngor Sir Surrey. Roedd hefyd yn aelod o Banel Cynghori cenedlaethol ar gyfer y Cynllun Sefydliadau Disglair sy'n hyrwyddo rhagoriaeth ac arloesed mewn gwasanaethau cyhoeddus; ac yn perthyn i Fforwm Migration Impacts. 56 oed.

Dr. Jon Hargreaves CBE

Ymunodd Jon â'r Bwrdd ar 1 Ebrill 2008 i gynrychioli buddiannau'r Alban ar ôl profiad helaeth yn y diwydiant dŵr, yn fwyaf diweddar fel Prif Weithredwr Scottish Water. Mae hefyd yn Gadeirydd ar Grŵp Dyfrffyrdd Prydain yr Alban. Mae ganddo 34 o flynyddoedd o brofiad yn y diwydiant dŵr ynghyd â phrofiad mewn marchnadoedd rhyngwladol. 59 oed **(E, C)**

Nigel Hugill

Mae Nigel yn gyn Gadeirydd Lend Lease Europe a chyn Reolwr Gyfarwyddwr Chelsfield ccc (y ddau yn fusnesau eiddo a datblygu mawr). Mae'n Gynhorydd Arbennig i'r Asiantaeth Cartrefi a Chymunedau, yn aelod o Gyngor Cyffredinol Ffederasiwn Eiddo Prydain ac o'r Comisiwn Trafnidiaeth Annibynnol. Mae'n un o Lywodraethwyr Ysgol Economeg Llundain ac yn Ymddiriedolwr y Sefydliad Pensaernïaeth. 51 oed. **(B, G)**

Eric Prescott

Eric yw Prif Weithredwr Leonard Cheshire Disability – un o brif elsuennau y DU ar gyfer anableddau amrywiol. Mae hefyd yn Gadeirydd Anweithredol LogiKal Cyf – sef darparwr gwasanaethau rheoli rhaglenni. Mae'n gyn Lywydd a Rheolwr Gyfarwyddwr ar ALSTOM UK a chwmnïau seilwaith eraill yn y DU. Mae'n ymddiriedolwr i nifer o elusennau sy'n gweithio gyda phlant difreintiedig a throseddwyr ifanc. Fel aelod o Bwyllgor Llywydd y CBI, mae wedi gweithio ar faterion newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd. Mae'n enweiriwr brwd gyda 45 mlynedd o brofiad o bysgota ar gamlesi'r DU. 52 oed **(A, B)**

Pommy Sarwal

Mae Pommy yn Aelod Anweithredol o Fyrddau Awdurdod Porthladd Llundain, Infrastructure India ccc, Christie Group ccc, Doc Hanesyddol Chatham a Chymdeithas Tai Hyde. Mae ganddo brofiad eang o reoli ariannol yn y sector preifat a'r sector cyhoeddus ac mae'n gyn Bartner Ariannol Corfforaethol yn Deloitte ac yn dal i wneud gwaith ymgynghori iddynt. Mae ganddo ddiddordeb brwd mewn treftadaeth a chadwraeth. 58 oed **(B, F)**

Duncan Suntherland

Ymunodd Duncan â'r Bwrdd i gynrychioli buddiannau'r Alban. Ef yw Rheolwr Gyfarwyddwr Inpartnership. Bu'n Gyfarwyddwr Datblygu Dinas i Gyngor Dinas Coventry ac mae wedi cyflawni llawer o brosiectau canol dinas gan gynnwys Basn Camlas Coventry. Mae hefyd wedi gweithio yn Inner City Enterprises ccc, wedi bod yn Brif Weithredwr ar EDI Group Cyf ac wedi bod yn rhan o sefydliadau cenedlaethol megis Cyngor Ymgynghorol Cymdeithas Bwrdeistrefi Hanesyddol yr Alban ac yn aelod o Bwyllgor Gweithredol Cyngor Datblygu a Diwydiant yr Alban. 57 oed **(C, E, G)**

CYFARWYDDWYR GWEITHREDOL

Robin Evans BSc, FRICS
Prif Weithredwr
Ymunodd Robin â Dyfrffyrdd Prydain yn 1999 fel Cyfarwyddwr Masnachol a daeth yn Brif Weithredwr ym mis Rhagfyr 2002. Cyn hynny treuliodd bedair blynedd fel Cyfarwyddwr Palasau ar gyfer Palasau Brenhinol Hanesyddol a bu'n Brif Weithredwr y Landmark Trust am wyth mlynedd. 55 oed.

Mark Bensted IEng. AMIStructE
Cyfarwyddwr, Llundain
Bu Mark yn gyfrifol am weithgareddau gweithredol, eiddo, hamdden ac adfywio Dyfrffyrdd Prydain Llundain ers 1990. Cyn ymuno â Dyfrffyrdd Prydain bu Mark yn gweithio yn y diwydiant adeiladu i Taylor Woodrow a Kyle Stewart. 51 oed.

Steve Dunlop BEd (Anrh)
Cyfarwyddwr, yr Alban
Bu Steve yn Gyfarwyddwr Adfywio gyda Chyngor Dinas Newcastle. Dechreuodd ar ei yrfa ym maes rheoli hamdden cyn symud i nifer o uwch swyddi proffil uchel mewn llywodraeth leol. Ei swydd ddiweddaraf oedd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymunedol yng Nghyngor Falkirk. 47 oed.

Nigel Johnson BSc (Econ), Cyfreithiwr
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ac Ysgrifennydd y Bwrdd
Bu Nigel yn gweithio fel cyfreithiwr corfforaethol yn y diwydiant cyllid am 18 mlynedd a bu'n uwch gyfreithiwr yn Westminister cyn ymuno â Dyfrffyrdd Prydain. 54 oed **(A)**

Stuart Mills, BSc, MRICS
Cyfarwyddwr Eiddo
Syrfëwr siartredig yw Stuart a ymunodd â Dyfrffyrdd Prydain yn 1990 ar ôl cydweithio gydag ymgynghorwyr eiddo'r sector preifat, Drivers Jonas. Mae wedi gweithio'n helaeth ledled y wlad mewn swyddi eiddo amrywiol ac yn ddiweddar bu'n Bennaeth Eiddo gyda chyfrifoldeb dros sefydlu nifer o gyd-fentrau. 41 oed.

Vince Moran BA, FCIPD
Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cwsmeriaid
Ymunodd Vince â Dyfrffyrdd Prydain yn dilyn profiad helaeth mewn swyddi personél a rheoli cyffredinol ym maes cynhyrchu, gweithgynhyrchu a gweithgareddau gwasanaeth gyda'r diwydiant glo a Chubb Security ccc.
53 oed.

Philip Ridal BEng. FCA, MCT
Cyfarwyddwr Cyllid
Ac yntau'n aelod o Sefydliad y Cyfrifwyr Siartredig ac yn aelod o Gymdeithas y Trysoryddion Corfforaethol, mae Philip wedi dal amryw o swyddi ariannol mewn cwmnïau eiddo a restrir yn y DU, gan gynnwys grŵp adeiladu Mowlem ac mae'n gyn Gyfarwyddwr Cyllid Grŵp Meysydd Awyr Manceinion ccc. 55 oed (A)

Simon Salem BA, MBA
Cyfarwyddwr Marchnata a Gwasanaethau Cwsmeriaid
Mae gan Simon 20 mlynedd o brofiad ym maes marchnata, cysylltiadau cyhoeddus, materion corfforaethol a chodi arian. Cyn ymuno â Dyfrffyrdd Prydain bu'n gweithio i London Transport. Mae wedi gweithio'n helaeth yn y diwydiant hamdden a thwristiaeth. 51 oed.

Jim Stirling OBE, BSc, MBA CEng, FICE, MIStructE
Cyfarwyddwr Technegol
Ymunodd Jim â Dyfrffyrdd Prydain fel Rheolwr yr Alban yn 1992 a daeth yn Gyfarwyddwr yr Alban yn 1997 ac yn Gyfarwyddwr Technegol yn 2005. Treuliodd Jim flynyddoedd lawer ym maes peirianneg sifil, adeiladu a datblygu yn y DU a thramor. 56 oed.

Aelodau'r Bwrdd
Penodir Bwrdd Dyfrffyrdd Prydain gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a (mewn perthynas â dau aelod) Llywodraeth yr Alban. Bwriedir i'r penodiadau sicrhau cydbwysedd da o sgiliau a phrofiad sy'n berthnasol i gylch gwaith eang Dyfrffyrdd Prydain.

Allwedd i'r Aelodaeth

A. Cyfarwyddwr Ymddiriedolwyr Pensiwn Cyf Dyfrffyrdd Prydain
B. Aelod o'r Pwyllgor Archwilio
C. Aelod o'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol
D. Aelod o'r Pwyllgor Enwebu
E. Aelod o Grŵp Dyfrffyrdd Prydain yn yr Alban
F. Aelod o'r Pwyllgor Masnachu Deg
G. Aelod o Bwyllgor y Grŵp Eiddo

ADOLYGIAD ARIANNOL

Cafodd y dirywiad difrifol yn y farchnad eiddo a'r dirwasgiad cyffredinol effaith andwyol ar y canlyniadau ariannol eleni. Daw rhan o incwm Dyfrffyrdd Prydain o'i weithgareddau datblygu eiddo trwy ei gyd-fentrau. Mae incwm o'r ffynonellau hyn wedi dioddef yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

Mae gwerth portffolio eiddo anweithredol Dyfrffyrdd Prydain yn adlewyrchu effaith y dirwasgiad hefyd gyda gostyngiad o 15% y llynedd (£66 miliwn). Serch hynny, roedd y gostyngiad hwn yn ffafriol o gymharu ag elw cyfalaf mynegai IPD y DU ar gyfer 2008, sef -26% ar gyfer eiddo masnachol a -18% ar gyfer eiddo preswyl. Mae portffolio buddsoddi Dyfrffyrdd Prydain yn cynnwys buddsoddiadau rhent tir diogel iawn na effeithiwyd arnynt i'r un graddau â dosbarthiadau eraill o asedau masnachol. Cafodd caniatâd cynllunio amlinellol ei gymeradwyo ar gyfer ailddatblygu Wood Wharf, Docklands, ac mae hyd wedi cael effaith gyffredinol gadarnhaol ar ostyngiadau gwerth yn y portffolio datblygu eiddo. Mae'r portffolio preswyl wedi'i ailbrisio i fod 13% yn uwch yn dilyn ymarfer prisio trylwyr a manwl. Er bod y gwerth cyffredinol wedi gostwng yn sylweddol, gan ddadwneud twf y ddwy flynedd flaenorol, dylid ei ystyried ochr yn ochr â'r cynnydd parhaol yng ngwerth eiddo Dyfrffyrdd Prydain yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Cynyddodd incwm masnachol 11%, yn bennaf o ganlyniad i bremiwm hawddfraint eiddo untro. Cafwyd incwm parhaol o ffynonellau eraill er gwaethaf y dirwasgiad gyda thueddiadau sylfaenol cadarnhaol ym mhob maes incwm.

Mae Dyfrffyrdd Prydain wedi'i ariannu'n rhannol drwy gymorth grant gan Defra yng Nghymru a Lloegr a chan Lywodraeth yr Alban yn yr Alban. Dim ond pan fo ei angen y gellir rhoi cymorth grant ac yn unol â hynny mae Dyfrffyrdd Prydain yn anelu at adennill costau ar ei gyfrif elw a cholled gweithredol o flwyddyn i flwyddyn. Y cyfanswm ar gyfer gweithgareddau gweithredol, ar ôl trethiant y gellir ei briodoli, oedd gwarged o £0.7 miliwn o gymharu â cholled o £1.8 miliwn y flwyddyn flaenorol.

Er gwaethaf y pwysau cynyddol ar ein harian rydym wedi cynnal gwariant ar gynnal a chadw'r dyfrffyrdd a gwasanaethau cwsmeriaid ar lefel debyg, sef £69.4 miliwn (2008: £68.8 miliwn) gyda gwariant ar waith mawr wedi cynyddu i £28.6 miliwn (2008: £21.5 miliwn). Mae'r gwariant ar brosiectau a ariennir gan drydydd partïon yn seiliedig ar gyllid sydd ar gael. Gwelwyd gostyngiad o 26% mewn gweithgarwch i £36.1 miliwn wrth i waith adeiladu prosiectau mawr gael ei gwblhau neu nesu at y pwynt hwnnw.

Roedd cronfeydd wrth gefn y grŵp 21% yn llai, sef £378.7 miliwn, sy'n adlewyrchu'r gostyngiad yng ngwerth marchnad ein buddsoddiadau eiddo a'n datblygiadau eiddo cyd-fenter a chynnydd yn niffygion y gronfa bensiwn. Caiff enillion a cholledion cyfalaf ar gyfer eiddo anweithredol eu trosglwyddo i ac o gronfeydd cyfalaf wrth gefn. Mae'r colledion a gafwyd o gyd-fentrau yn gysylltiedig â'r gostyngiad yng ngwerth asedau datblygu eiddo'r cyd-fentrau hyn.

Mae'r colledion hyn yn cynrychioli colled penodol yng ngwerth y cyfalaf a addawyd. Gan ei bod hi'n annhebygol y caiff y colledion eu hadennill yn ystod y blynyddoedd nesaf, cânt eu trin fel colledion cyfalaf a'u rhoi mewn cronfeydd cyfalaf wrth gefn.

Incwm masnachu

Cynyddodd cyfanswm incwm y grŵp, gan gynnwys arian trydydd parti, 2% i £223.3 miliwn. Cynyddodd incwm masnachol y grŵp 11% i £112.9 miliwn, yn bennaf o ganlyniad i bremiymau untro ar gyfer gweithgareddau datblygu eiddo trydydd parti ar lannau'r dyfrffyrdd. Ac eithrio'r eitem hon, cafwyd gostyngiad o 2% mewn incwm eiddo oherwydd yr incwm a wariwyd ar gael gwared ar eiddo. Mae incwm cyfleustodau wedi parhau ar lefel foddhaol er gwaethaf y cyfnod ariannol anodd gan godi 6% i £21.4m. Tra bod llawer mwy o gwsmeriaid gwerthu dŵr wedi dod â'u contractau i ben o gymharu â'r blynyddoedd diwethaf, mae busnes newydd yn cynyddu, yn enwedig ymhlith cwsmeriaid cyfleustodau mwy o faint.

Mae incwm o drwyddedau cwch wedi codi 13% sy'n adlewyrchu cynnydd mewn enillion fesul trwydded hirdymor o 6% a'r cynnydd o 4% yn nifer y trwyddedau hirdymor a roddwyd. Cyflawnwyd y cynnydd hwn yn rhannol wrth i lai o bobl lwyddo i osgoi talu a bod twf wedi bod yn y farchnad gychod.

Cynyddodd incwm angori 11% o ganlyniad i'r cyfraddau angori uwch yn unol â phris y farchnad a llai o gyfnodau gwag.

Cafwyd 26% yn llai o gyfraniadau at waith a ariennir gan drydydd partïon, sef £36.1 miliwn. Parhaodd y gweithgarwch ar waith adfer mwy ar lefel tebyg i'r flwyddyn flaenorol; mae'r prif brosiectau adeiladu yn cynnwys ymestyn camlas Gyswllt Lerpwl a gwaith adfer Camlesi Droitwich. Cafwyd llai o gyfraniadau tuag at brosiectau eraill a ariennir gan drydydd partïon yn 2008/09 gan fod prosiectau'n dod i ben neu'n agosáu at orffen.

Derbyniwyd £6.4 miliwn yn fwy o grantiau gan y llywodraeth eleni, sef cyfanswm o £74.3 miliwn o gymharu â £67.9 miliwn y flwyddyn gynt. Derbyniwyd grant cymorth o £62.7 miliwn gan Defra (2008: £56.6 miliwn) a oedd £6.1 miliwn yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Roedd hyn gan fod Defra wedi ailddyrannu'r grant ar gyfer 2009/10 yn 2008/09 i wneud iawn am y colledion gweithredol er mwyn i ni allu gwario'r swm y bwriadwyd ei wario ar gynnal a chadw'r dyfrffyrdd. Ni ddisgwylir i gymorth grant y dyfodol barhau ar y lefel hon ac mae'n debygol y bydd y cymorth yn lleihau yn ystod y blynyddoedd nesaf. Yn ystod y tair blynedd rhwng 2008/09 a 2010/11 rydym yn disgwyl derbyn £166.8 miliwn gan Defra. Derbyniwyd £61.6 miliwn o'r swm hwn yn 2008/09. Cynyddodd grant a dderbynir gan Lywodraeth yr Alban £0.3 miliwn i £11.6 miliwn.

Crynodeb o ganlyniadau'r flwyddyn £m (heb gynnwys cost tâl cyfalaf a cymhorthdal y llywodraeth)

	2008/09	2007/08	Newid %
Incwm masnachol			
Cyfraniadau trydydd parti tuag at waith			
Grantiau'r Llywodraeth			
Cyfanswm y refeniw			
Cynnal a chadw a gwaith mawr i'r dyfrffyrdd			
Gwariant gweithredu arall			
Costau prosiectau a ariannwyd gan drydydd partïon			
Cyfanswm gwariant			
Elw/(colled) gweithredu			
Llog net			
Cyfran enillion a cholledion o gyd-fentrau			
Ennillion a wireddwyd o werthu eiddo ac asedau buddosddi			
(Colledion) / enillion ailbrisio eiddo buddsoddi nas gwireddwyd			
(Diffyg) / gwarged cyn treth			
Credyd treth			
(Diffyg) / gwarged ar ôl treth			
Cronfeydd cyfunol y Grŵp			

Crynodeb o incwm masnachol y Grŵp £m	**Grŵp Dyfrffyrdd Prydain**			**Cymru a Lloegr**		**Yr Alban**	
	2008/09	2007/08	Newid	**2008/09**	2007/08	**2008/09**	2007/08
Rhenti eiddo, ffordd-freintiau a phremiymau							
Incwm cyfleustodau a gwerthu dŵr							
Incwm trwyddedau cychod							
Cyfanswm incwm BWML							
Trwyddedau angori Dyfrffyrdd Prydain*							
Gwerthiannau manwerthu Dyfrffyrdd Prydain*							
Cynnal a chadw ac incwm arall							
Incwm masnachol y Grŵp							
Cyfraniadau trydydd parti at waith i'r Grŵp £m							
Cyfraniadau adfer camlesi							
Cyfraniadau at waith arall a ariannwyd gan drydydd partïon							
Cyfraniadau trydydd parti at y Grŵp							
Trosiant y Grŵp heb gynnwys cyd-fentrau							
Grant gan y llywodraeth							

Ystadegau incwm cychod	Cymru a Lloegr			Yr Alban		
	2008/09	2007/08	Newid %	**2008/09**	2007/08	Newid %
Incwm trwyddedau cychod hirdymor £m						
Nifer y trwyddedau cychod hirdymor a roddwyd						
Incwm trwyddedau cychod fesul cwch £						
Incwm angorfeydd £m						
Nifer y trwyddedau angori a roddwyd* **						
Incwm angorfeydd fesul trwydded* £						

* Heb gynnwys BWML
** Cymru a Lloegr yn cynnwys trwyddedau 3 blynedd a roddwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol

Trwyddedau cychod	Cymru a Lloegr		
	2008/09	2007/08	Newid %
Cychod pleser preifat - camlesi ac afonydd			
Gyda phŵer			
Heb bŵer			
Cyfanswm			
Cychod pleser preifat – afonydd			
Gyda phŵer			
Heb bŵer			
Cyfanswm			
Cychod preswyl			
Cychod busnes			
Cychod busnes hamdden			
Platiau masnach, llongau cludo nwyddau a llongau gwaith			
Cyfanswm			
Cyfanswm y trwyddedau hirdymor			

Ceir dadansoddiad o gychod yn yr Alban ar dudalen 19 o Adolygiad Busnes yr Alban

Dadansoddiad o gostau gweithredu £m	Grŵp Dyfrffyrdd Prydain			Cymru a Lloegr		Yr Alban	
	2008/09	2007/08	**Newid**	**2008/09**	2007/08	**2008/09**	2007/08
Cynnal a chadw dyfrffyrdd a gwasanaeth cwsmeriaid							
Gwaith mawr ar seilwaith							
Carthu camlesi							
Costau gweithredu unedau busnes							
Costau gweithredu BWML							
Asedau a ariannwyd drwy waddol							
Swyddogaethau Pencadlys a gwasanaethau canolog							
Costau adfer camlesi							
Costau gwaith arall a ariannwyd gan drydydd partïon							

Cynyddodd cyfran y Grŵp o drosiant y cyd-fentrau i £26.0 miliwn (2008: £4.2 miliwn). Cafwyd y cynnydd trwy werthu eiddo preswyl yn ISIS, gwerthu tir ar gyfer datblygu archfarchnad yng nghyd-fenter Ceiau Caerloyw a thrwy werthu tir datblygu preswyl yn Glasgow fel rhan o gyd-fenter Basn Timber. Tra gwnaed elw o werthu safleoedd datblygu, bu'n rhaid gwneud iawn am y golled ar gyfer y gwaith datblygu sydd ar y gweill yn ISIS a Cheiau Caerloyw er mwyn adlewyrchu'r gwerth eiddo is. Cynyddodd cyfran Dyfrffyrdd Prydain, ar ôl colledion treth, i £33.3 miliwn (2008: colled o £2.4 miliwn).

Costau gweithredu

Cynyddodd costau gweithredu heb gynnwys cyfraniadau trydydd parti 7% i £175.2 miliwn.

Er gwaethaf y pwysau cynyddol ar ein harian rydym wedi cynnal gwariant ar gynnal a chadw'r dyfrffyrdd a gwasanaethau cwsmeriaid ar lefel debyg, sef £70.9 miliwn (2008: £68.8 miliwn).
Cafwyd enillion effeithlonrwydd drwy waith tîm ymarferol ac mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar y gwaith cynnal a chadw cyffredinol ar seilwaith y dyfrffyrdd wrth i systemau cynnal a chadw pwrpasol gael eu gweithredu'n gyson ar bob dyfrffordd. Trwy barhau i ganolbwyntio ar y Safonau Diogelwch Gofynnol gwelwyd gwelliannau i lwybrau mynediad, glanfeydd lociau a phontydd ac angorfeydd

ymwelwyr. Gellir gweld effaith y newidiadau hyn ym mhob cwr o'r wlad. Cafwyd enillion effeithlonrwydd sylweddol o'n cytundeb cynnal a chadw newydd gyda Fountains ccc i reoli llawer o'n llystyfiant a'n cyfleusterau yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr. Enillodd y cwmni y tendr ar gyfer holl ddyfrffyrdd Cymru a Lloegr a daeth y contract i rym ym mis Ebrill 2009.

Cynyddodd cyfanswm y gwariant ar waith mawr a charthu camlesi i £30.7 miliwn (2008: 26.3 miliwn). Mae hyn yn rhannol oherwydd cost atgyweirio wedi i Gamlas Mynwy ac Aberhonddu orlifo ei glannau. Cyfanswm cost gwaith atgyweirio Camlas Mynwy ac Aberhonddu yw £8.5 miliwn dros y ddwy flynedd ers y gorlifo yn 2007. Agorwyd y gamlas i gychod ar amser ym mis Mawrth 2009.

Mae'r eitem o dan gostau gweithredu unedau busnes yn cynnwys costau rhedeg naw swyddfa ddyfrffyrdd ledled Prydain ynghyd â'r costau y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i gael incwm masnachol. Mae costau Pencadlys a gwasanaethau canolog yn cynnwys cost prif swyddfa'r Grŵp, yn Watford, ynghyd â chost swyddogaethau'r gwasanaethau canolog sy'n cefnogi'r dyfrffyrdd a'r busnesau sy'n cynhyrchu incwm. Mae'r swyddogaethau canolog hyn a rennir wedi'u lleoli yn Leeds a Watford yn bennaf ac maent yn cynnwys cyfrifyddu ariannol, caffael, trwyddedau cychod, technoleg gwybodaeth, adnoddau dynol, marchnata a gwasanaethau cwsmeriaid, staff peirianneg dechnegol a gwasanaethau cyfreithiol.

Cynyddodd cost gweithredu'r unedau busnes 6% i £32.8 miliwn, yn bennaf oherwydd cost gynyddol rheoli ein portffolio eiddo. Cafwyd y prif gynnydd oherwydd y newid mewn deddfwriaeth cyfraddau eiddo gwag, effaith blwyddyn gyfan o daliadau gwasanaeth ar gyfer caffael eiddo yn 2007/08 yn ogystal ag effaith economi sy'n dirywio, er enghraifft taliadau gwasanaethau nad oes modd eu hadennill, dyled ddrwg a chostau eiddo gwag ac eiddo nad ydynt yn cael eu defnyddio. Arhosodd costau eraill yr unedau busnes ar yr un lefelau â'r flwyddyn flaenorol neu roeddynt wedi gostwng.

Gweithgareddau gweithredol £m	**2008/09**	2007/08
Elw / (colled) gweithredu		
Cyfran o ganlyniadau gweithredu cyd-fentrau (ar ôl treth)		
Trosglwyddo colledion sefydlog o gyd-fentrau		
Trosglwyddo colledion ailbrisio eiddo o gyd-fentrau		
Llog derbyniadwy		
Llog taladwy		
Gwarged / (diffyg) ar weithgareddau gweithredol cyn trethiant		
Treth gorfforaeth y gellir ei phriodoli		
Gwarged / (diffyg) net a gadwyd		

Gweithgareddau eiddo anweithredol	**2008/09**	2007/08
Elw ar waredu eiddo buddsoddi		
Elw ar werthu eiddo'r brif swyddfa		
Colledion / enillion nas gwireddwyd ar ailbrisio eiddo buddsoddi		
Colled nas gwireddwyd ar ailbrisio eiddo cyd-fentrau		
Colledion buddsoddiadau cyd-fentrau		
(Diffyg) / gwarged ar weithgareddau eiddo anweithredol cyn trethiant		
Treth enillion cyfalaf ar elw gwaredu		
Credyd / (tâl) treth ohiriedig ar enillion nas gwireddwyd		
(Diffyg) / gwarged ar weithgareddau eiddo anweithredol cyn trethiant		
Trosglwyddo i gronfeydd cyfalaf wrth gefn a wireddwyd		
Gwarged / (diffyg) net a gadwyd		

Gwarged / (diffyg) ar weithgareddau gweithredol

Cynyddodd y gwarged / (diffyg) ar weithgareddau gweithredol ar ôl trethiant y gellir ei briodoli, i warged net o £0.7 miliwn (2007: diffyg o £1.8 miliwn).

Enillion a cholledion ar weithgareddau eiddo anweithredol

Oherwydd cyflwr gwael y farchnad eiddo cafwyd colledion ailbrisio o £66.4 miliwn yn 2008/09. Tra bod hyn yn cynrychioli gostyngiad sylweddol yng ngwerth portffolio Dyfrffyrdd Prydain, mae'r farchnad eiddo wedi gweld elw cyfalaf IPD o -26% ar gyfer eiddo masnachol yn 2008 (-18% ar gyfer eiddo preswyl). Roedd sefyllfa Dyfrffyrdd Prydain yn well na hyn, sef -11.5%.

Trosglwyddwyd £73.6 miliwn o gronfeydd cyfalaf wrth gefn (2008: trosglwyddo £38.1 miliwn i'r cronfeydd), sy'n cynrychioli'r golled ar ailbrisio eiddo buddsoddi a cholledion buddsoddiadau cyd-fenter net. Gwneir iawn am hyn gan yr elw net ar waredu eiddo buddsoddi net o drethiant y gellir ei briodoli.

Rheoli trysorlys a hylifedd

Dim ond mewn adneuon marchnad arian y buddsoddir arian parod am gyfnodau nad ydynt yn fwy na thri mis. Mae Dyfrffyrdd Prydain yn cynnal cyfrifon banc ar wahân ar gyfer gweithgareddau gweithredol (cyfrif masnachu) ac ar gyfer gweithgareddau anweithredol (cyfrif cyfalaf masnachol). Ar ddiwedd y flwyddyn cafwyd balans arian parod gweithredol o £12.2 miliwn (2008: £12.0 miliwn) a balans arian parod gweithgarwch anweithredol o £40.4 miliwn (2008: £19.8 miliwn). Cedwir £2.8 miliwn arall (2008: £1.7 miliwn) yng nghyfrifon ariannu trydydd parti ar gyfer cynlluniau adfywio ac adfer ynghyd â £5.9 miliwn (2008: £4.1 miliwn) a gadwyd mewn is-gwmnïau o dan berchenogaeth lwyr sy'n gweithredu ar wahân i Ddyfrffyrdd Prydain.

Mae Dyfrffyrdd Prydain hefyd yn benthyg arian wrth Port of London Properties (POLP); ar gyfradd gyfnewidiol o 1% ar ben cyfradd sylfaenol Banc Lloegr. Y swm sy'n ddyledus gan Ddyfrffyrdd Prydain i POLP oedd £12.9 miliwn yn 2009 ac yn 2008.

Rhyddhawyd swm net o £51.7 miliwn (2008: £26.5 miliwn) o arian parod yn ystod y flwyddyn o werthu eiddo buddsoddi net o symiau a ddefnyddiwyd ar gyfer buddsoddiadau eiddo a thaliadau treth. Delir y balansau arian parod anweithredol i fodloni rhwymedigaethau treth ac ymrwymiadau ariannu i gyd-fentrau.

Gostyngodd benthyciadau hirdymor £1.0m i £6.0m sef 1.8% (2007: 1.7%) o gyfanswm y cronfeydd wrth gefn.

Benthyca a rheoli risg hylifedd

Mae rheolaethau benthyca'r sector cyhoeddus yn berthnasol i Ddyfrffyrdd Prydain ac ni all fenthyg arian na mynd i ddyledion heblaw'r hyn a awdurdodir gan Drysorlys EM. Mae benthyciadau awdurdodedig Dyfrffyrdd Prydain yn cynnwys benthyciadau gan y Gronfa Benthyciadau Cenedlaethol, Port of London Properties a chyfleuster gorddrafft o £3 miliwn. Mae benthyciadau cyfalaf gweithio ar gael gan Drysorlys EM bob blwyddyn hyd at gyfanswm benthyca o £35 miliwn ar gyfer yr holl fenthyciadau a'r dyledion.

Mae gan Ddyfrffyrdd Prydain fuddiannau mewn nifer o gyd-fentrau datblygu eiddo sy'n fusnesau annibynnol ac sy'n cael eu hariannu'n annibynnol â dyled banc allanol heb droi at Ddyfrffyrdd Prydain. Ym mhob un o'r cyd-fentrau asesir a ddylai'r taliadau llog ar fenthyciadau gael eu rhagfantoli o ran maint y ddyled, am ba gyfnod y bwriedir benthyca symiau a sensitifrwydd y prosiect i newidiadau mewn cyfraddau llog.

Ar 31 Mawrth 2009 cyfanswm benthyciadau banc Dyfrffyrdd Prydain ar gyfer cyd-fentrau oedd £84.6 miliwn (2008: £46.6 miliwn). O'r benthyciadau hyn mae 65% (2008: 59%) naill ai ar gyfradd llog sefydlog neu mae trefniadau ar waith i droi at gyfradd llog sefydlog.

Cyfran Dyfrffyrdd Prydain o fenthyciadau banc ar gyfer cyd-fentrau

	2008-9	2007/8
	£m	£m
Ceiau Caerloyw		
Adfywio Glan Dŵr ISIS		
Partneriaeth Tafarnau Glan Dŵr		
Cei Caeredin		
Wood Wharf		
Arall		

Mae Dyfrffyrdd Prydain yn defnyddio unrhyw arian dros ben yn y cyfrif cyfalaf masnachol i reoli risg benthyca mewn cyd-fentrau. Oherwydd cysylltiad cymharol isel Dyfrffyrdd Prydain â'r marchnadoedd arian a chan fod hylifedd yn cael ei reoli mewn modd ymarferol, mae wedi paratoi'n dda at wrthsefyll ansefydlogrwydd mawr y farchnad arian a marchnadoedd eraill.

Cronfa bensiwn

Paratoir y cyfrifon yn unol ag IAS 19, sef safon gyfrifyddu IFRS sy'n ymwneud â chyfrifyddu mewn perthynas â chronfeydd pensiwn.

Yn unol â chronfeydd pensiwn tebyg yn ystod y flwyddyn, cyflawnodd yr asedau buddsoddi yn unol â'r dirywiad cyffredinol yn y farchnad arian gan ddangos gostyngiad gwerth cyffredinol o £40.6 miliwn, neu 15.2% o gymharu â'r swm ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol. Ar 31 Mawrth 2008 roedd gwerth y rhwymedigaethau yn 76% (2007: 89%) yn cael ei gwmpasu gan werth yr asedu. Mae'r enillion

actiwaraidd ar y rhwymedigaethau yn adlewyrchu'r gostyngiad yng ngwerth presennol y rhwymedigaethau a achoswyd gan y cynnydd i gyfradd y disgownt.

Mae'r tabl ar y dde yn dangos y symudiadau ar y gronfa bensiwn yn seiliedig ar IAS 19.

Bob tair blynedd mae'n ofynnol i Ymddiriedolwyr y Gronfa drefnu i actiwari annibynnol brisio'r gronfa. Mae canlyniadau'r prisiad a gynhaliwyd ar 31 Mawrth 2007 wedi'u cwblhau'n derfynol gan yr Ymddiriedolwyr a'u cyflwyno i'r Rheoleiddiwr Pensiynau.

Llif arian parod	**2008/09**	2007/08
Elw / (colled) gweithredu	**£m**	£m
Difidendau o gyd-fentrau		
Eitemau anariannol mewn colled gweithredu		
Symudiad mewn cyfalaf gweithio a darpariaethau		
Llog net sy'n dderbyniadwy		
Llif arian parod gweithredu		
Gwariant cyfalaf gweithredol (net)		
Prynu eiddo buddsoddi		
Gwaredu eiddo a buddsoddiadau		
Buddsoddi mewn cyd-fentrau		
Taliadau i gaffael masnach neu fusnesau		
Taliadau trethiant		
Llif arian parod net		

Balansau arian parod ar 31 Mawrth

Crynodeb o newidiadau i ddiffyg y gronfa bensiwn	**2008/09** **£m**	2007/08 £m
Diffyg ar 1 Ebrill		
Cost gwasanaethau cyfredol		
Addasiad cost am wasanaeth a roddwyd		
Disgownt o ddirwyn rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn i ben		
Elw ar asedau'r cynllun pensiwn		
Enillion actiwaraidd		
Cyfraniadau mewn arian parod gan y cyflogwr		
Diffyg ar 31 Mawrth		

Asedau a rhwymedigaethau yn y cynllun pensiwn £m	**31 Mawrth 2008**	31 Mawrth 2007	Newid
Gwerth asedau ar y farchnad			
Gwerth cyfredol rhwymedigaethau			
Diffyg			
Ariannu %			

Crynodeb o symudiadau ar y gronfa elw a cholled wrth gefn

£m	Gweithgareddau Gweithredu	Diffyg Pensiwn	Cyfanswm
Balans ar 1 Ebrill 2008			
Colled ar weithgareddau gweithredu ar gyfer y flwyddyn cyn treth			
Lleihad yn rhwymedigaeth y gronfa bensiwn (yn glir o dreth ohiriedig)			
Trosglwyddo colledion penodol cyd-fenter y flwyddyn flaenorol i'r gronfa gyfalaf wrth gefn			
Balans ar 31 Mawrth 2008			

Caiff y diffyg o £38.5 miliwn yn y gronfa fel yr oedd ar 31 Mawrth 2007 ei ariannu gan daliadau o Ddyfrffyrdd Prydain dros gyfnod o 15 blynedd gan ddechrau ym mis Mawrth 2008. Cynhelir y prisiad actiwaraidd nesaf ar 31 Mawrth 2010.

Mantolen

Mae cronfeydd wrth gefn y Grŵp wedi lleihau £99.1 miliwn i £378.7 miliwn (2008: £477.8 miliwn) sef gostyngiad o 20% dros y flwyddyn. Mae'r gostyngiad hwn yn ymwneud yn bennaf â cholled ailbrisio eiddo buddsoddi o £47.4 miliwn (yn glir o dreth ohiriedig), a chynnydd yn y diffyg yn y gronfa bensiwn o £28.2 miliwn, yn glir o dreth ohiriedig.

Rhennir cyfrif y gronfa elw a cholled wrth gefn yn y tabl uchod er mwyn dangos y diffyg yn y gronfa bensiwn ar wahân i'r cronfeydd elw a cholled wrth gefn cronedig ar gyfer gweithgareddau gweithredol.

Rheoli risg

Disgrifir y ffordd rydym yn rheoli risg yn yr Adroddiad ar Lywodraethu Corfforaethol ar dudalen 40. Dengys hyn y pwys a roddir ar barhau i gael eglurdeb ynglŷn â risgiau, gan sicrhau bod prosesau rheoli effeithiol yn bodoli a bod rheoli risg yn rhan annatod o ddiwylliant Dyfrffyrdd Prydain. Mae'r prif risgiau yn deillio o seilwaith y dyfrffyrdd ac o'n gweithgareddau masnachol.

Caiff asedau eu harchwilio, eu hasesu a'u blaenoriaethu ar gyfer camau adferol yn barhaus gan fod methiannau'n arwain at ganlyniadau difrifol. Mae gwaith hanfodol i'w wneud o hyd i gyrraedd cyflwr cyffredinol cynaliadwy.

O gofio natur ein gwaith a'n cyfrifoldebau rydym yn agored iawn i newidiadau, drwy ddeddfwriaeth a rheoliadau newydd, i'r safonau hyn y cytunwyd arnynt. Cawn wybod yn well beth fydd yr effeithiau wrth i'r gofynion llawn sy'n deillio, er enghraifft, o'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ddod yn gliriach.

Caiff ffynonellau cynyddol hanfodol a phwysig o arian ychwanegol eu sicrhau drwy bartneriaethau. Mae'r mentrau hyn yn fodd i elwa ar asedau dyfrffyrdd Dyfrffyrdd Prydain drwy ddefnyddio arian buddsoddi ac arbenigedd datblygu allanol. Datblygwyd prosesau i leihau'r risg wrth ddewis partneriaid cyd-fentrau, monitro perfformiad, rhagweld a rheoli hylifedd arian a sicrhau llywodraethu priodol ac eglurdeb wrth ddyrannu cyfrifoldebau priodol rhwng partneriaid. Mae ein cyd-fentrau yn cynnwys datblygiadau eiddo sylweddol sy'n cynnwys risgiau masnachol amrywiol.

Rydym yn mynd ati i ddefnyddio arbenigedd y partneriaid a ddewisir gennym yn y maes i reoli'r risgiau hyn yn effeithiol o fewn cyfyngiadau'r cylch economaidd ehangach.

Mae risgiau yn gysylltiedig â gweithredu ein newidiadau arfaethedig i'r busnes. Maent yn canolbwyntio ar ymddygiad sy'n meithrin cysondeb wrth gyflawni safonau, gwasanaeth cwsmeriaid a diogelwch mewn modd costeffiethiol. Rydym yn rheoli'r risgiau hyn drwy godau ymarfer er mwyn sicrhau masnachu teg, technegau rheoli prosiect cydnabyddedig, cyfathrebu, arfarniadau rheolaidd o berfformiad a chynlluniau datblygu unigol sy'n adlewyrchu'r blaenoriaethau busnes newydd.

Ein prif flaenoriaeth yw diogelwch ein cwsmeriaid, ein contractwyr a'n cyflogeion ar y dyfrffyrdd. Rydym yn gwella ein prosesau diogelwch o hyd ac yn mesur ein perfformiad o ran diogelwch. Mae hyfforddiant diogelwch, gweithdrefnau, arwyddion, archwiliadau rheolaidd o asedau a gwaith cynnal a chadw arnynt a datblygu cymwyseddau perthnasol yn enghreifftiau o'n fframwaith diogelwch.

O ran ein hamcanion ehangach, rydym wedi ymrwymo i sicrhau buddiannau cymdeithasol, amgylcheddol a threftadaeth. Rydym yn asesu ein holl asedau treftadaeth yn rheolaidd ac yn gwneud gwaith dilynol ar adeiladau mewn perygl. Gwneir asesiadau yn seiliedig ar risg yn unol â'n cod ymarfer amgylcheddol ar gyfer pob math o waith a wneir ac rydym wedi cyflwyno targedau cynaliadwyedd i leihau effaith allyriadau carbon a'r defnydd o adnoddau. Caiff risgiau diogelwch, fandaliaeth a rhwystrau i fynediad oll eu rheoli drwy ein rôl addysgol ac ymgysylltu â'r gymuned drwy sefydliadau sy'n ymwneud yn helaeth â chynhwysiant cymdeithasol a gwirfoddolwyr.

Mae ein gweithgareddau adfywio, gan gynnwys y rhai sy'n effeithio ar safle'r Gemau Olympaidd yn esgor ar fuddiannau yn amrywio o'r ffordd rydym yn rheoli lleoedd dŵr i gynlluniau ailddatblygu ehangach. Mae rheoli prosiectau yn dda, cydgysylltu â phartneriaid sy'n cyflawni gweledigaethau a rennir yn cyfrannu at gyflawni canlyniadau yn amserol.